Canllawiau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Trwyddedu Mandadol
ar gyfer Triniaethau Arbennig

# Canllawiau i Ymgeiswyr am Dystysgrif Gymeradwyo Mangre neu Gerbyd, ac i Ddeiliaid Tystysgrif Gymeradwyo

Ionawr 2025

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51238, ISBN digidol 978-1-83715-275-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


1. Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn 1

2. Cefndir 3

3. Sut i gael tystysgrif gymeradwyo ar gyfer mangre/cerbyd 4

   3.1 A oes angen tystysgrif gymeradwyo mangre/cerbyd arnaf? 4

   3.2 Cyn gwneud cais 5

   3.3 Y cais 6

   3.4 Tra bod y cais yn cael ei adolygu 6

   3.5 Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio ac arolygiad o fangre/cerbyd 7

   3.6 Os cymeradwyir eich cais 7

   3.7 Os dywedir wrthych na all eich cais fynd yn ei flaen 8

   3.8 Os gwrthodir eich cais 8

   3.9 Y broses apelio (drwy'r llysoedd) 9

4. Sut i amrywio neu adnewyddu eich tystysgrif gymeradwyo mangre/cerbyd 10

   4.1 Sut i amrywio eich tystysgrif gymeradwyo 10

   4.2 Sut i adnewyddu eich tystysgrif gymeradwyo 11

5. Tystysgrif gymeradwyo dros dro ar gyfer mangreoedd a cherbydau 12

6. Amodau cymeradwyo mandadol: tystysgrif gymeradwyo 13

7. Amodau cymeradwyo mandadol: tystysgrif gymeradwyo dros dro 27

8. Pwerau awdurdodau lleol, troseddau a gorfodi 41

8.1 Pwerau awdurdodau lleol 41

8.2 Troseddau 43

8.3 Camau gweithredu sydd ar gael i awdurdodau lleol lle nodir troseddau 44

**Atodiadau:**

Atodiad 1: Mangreoedd a cherbydau wedi eu hesemptio 46

Atodiad 2: Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio ac arolygiad 48

Pennod 1

# Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

## 1.1 Diben y canllawiau hyn

Mae Canllawiau'r Cynllun Trwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- gofynion y cynllun trwyddedu,
- y broses ymgeisio ar gyfer tystysgrif gymeradwyo neu dystysgrif gymeradwyo dros dro ar gyfer mangre neu gerbyd,
- sut i gydymffurfio â'r amodau cymeradwyo, a'r
- pwerau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol.

Bydd angen cymeradwyo mangreoedd/cerbydau nad ydynt wedi eu hesemptio er mwyn galluogi unrhyw un o'r 4 triniaeth arbennig ddynodedig (a ddiffinnir isod) i gael ei rhoi ynddynt yng nghwrs busnes:

- **Aciwbigo** – gosod nodwyddau ym meinwe unigolyn at ddibenion adfer neu ddibenion therapiwtig, ond ac eithrio gosod nodwyddau mewn meinwe at ddiben chwistrellu unrhyw sylwedd. Mae'r diffiniad o aciwbigo yn cynnwys nodwyddo sych.
- **Tyllu'r Corff** – gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i (a) emwaith, neu (b) i wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Mae'r cyfeiriad at wneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn mewn unrhyw ffordd…[yn cynnwys].. (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad.
- **Electrolysis** – gwaredu gwallt corff unigolyn drwy basio cerrynt trydan drwy'r gwreiddyn drwy osod nodwydd neu chwiliedydd.
- **Tatŵio** – mewnosod unrhyw ddeunydd lliwio sy'n gadael marc lled-barhaol neu barhaol (yn cynnwys micro liw) mewn tyllau a wnaed yng nghroen neu bilen fwcaidd unigolyn (gan gynnwys microbigmentiad). Mae'r diffiniad o datŵio yn cynnwys pob math o golur lled-barhaol, gan gynnwys microlafnu.

**Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan y canlynol:**

- Pobl sy'n dymuno gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo.
- Pobl sy'n dymuno gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro.
- Deiliaid tystysgrifau cymeradwyo a deiliaid tystysgrifau cymeradwyo dros dro.
- Swyddogion awdurdodau lleol.

**Nod y canllawiau hyn yw cefnogi cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ganlynol:**

- **Rhan 4** o **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** ac **Atodlen 3** iddi.
- **Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu dogfen ddefnyddiol i gefnogi cydymffurfiaeth â'r cynllun trwyddedu yng Nghymru o safbwynt atal a rheoli heintiau, a dylid ei darllen ar y cyd â'r canllawiau hyn. Mae **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn darparu gwybodaeth dechnegol am atal a rheoli heintiau a chyngor ymarferol ar sut y gellir cymhwyso'r mesurau hyn i driniaethau arbennig a'r mangreoedd/cerbydau lle rhoddir y triniaethau hyn.

Pennod 2

# Cefndir

**Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") y Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi (a ddaeth i rym ar 29 Tachwedd 2024) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyflwyno cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru.**

Mae "triniaethau arbennig" yn driniaethau esthetig neu therapiwtig nad ydynt yn driniaethau llawfeddygol, sy'n cynnwys gwneud trydylliad ym meinwe, yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd rhywun a mewnblannu nodwyddau, gemwaith, gwrthrychau neu inc neu bigmentau parhaol/lled-barhaol, sy'n gallu achosi niwed i iechyd dynol ac a ddiffinnir yn y Ddeddf fel: aciwbigo (sy'n cynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (sy'n cynnwys colur lled-barhaol).

Mae effeithiau andwyol ar iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig wedi cael llawer o sylw ac yn parhau i gael eu hadrodd. Mae arferion hylendid gwael yn arwain at heintiau feirws a gludir yn y gwaed a heintiau croen bacteriol, gyda rhai ohonynt yn arwain at sepsis ac adweithiau alergaidd. Gwaethygwyd yr effeithiau iechyd hyn gan fframwaith rheoleiddio annigonol.

Ni fu rheolaethau deddfwriaethol blaenorol, drwy gynllun cofrestru gydag awdurdodau lleol, yn effeithiol o ran sicrhau dull cyson gan ymarferwyr triniaethau arbennig yng Nghymru i weithredu arferion gweithio diogel a chymhwyso mesurau atal a rheoli heintiau. Yn ogystal, roedd trefniadau gorfodi gan awdurdodau lleol ledled Cymru yn anghyson. Felly, roedd yr angen am gynllun trwyddedu mandadol cenedlaethol sy'n cymhwyso meini prawf ac amodau cymeradwyo a thrwyddedu cenedlaethol cyffredin i sicrhau dull gorfodi cyffredin ledled Cymru, ac sy'n sicrhau bod safonau da o ran hylendid a rheoli heintiau yn cael eu cymhwyso i bob deiliad trwydded yn gwbl glir.

Ar 29 Tachwedd 2024, daeth y rheoliadau canlynol i rym i alluogi gweithredu'r cynllun trwyddedu o dan Ran 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi:

- **Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024**.

Ar yr un pryd, dyroddwyd **canllawiau statudol** o dan adran 66 o'r Ddeddf mewn perthynas ag:

- Asesu addasrwydd person i roi triniaeth arbennig yng Nghymru. Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn helpu i gefnogi deiliaid tystysgrif gymeradwyo a deiliaid tystysgrif gymeradwyo dros dro i gydymffurfio â gofynion y cynllun trwyddedu ac yn galluogi swyddogion awdurdodau lleol i fabwysiadu dull cyson o weithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth hon.

Pennod 3

# Sut i gael tystysgrif gymeradwyo ar gyfer mangre/cerbyd

**Mae'r broses o wneud cais ac apelio a amlinellir isod yn berthnasol i dystysgrif gymeradwyo a thystysgrif gymeradwyo dros dro. Ar ddiwedd y bennod hon, mae adran yn benodol ar wybodaeth ychwanegol ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo dros dro.**

## 3.1 A oes angen tystysgrif gymeradwyo ar gyfer mangre/cerbyd arnaf?

Os mai chi sy'n gyfrifol am fangre neu gerbyd lle mae unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig:

- aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych),
- tyllu'r corff (gan gynnwys tyllu'r glust),
- electrolysis a
- thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol)

yn cael ei rhoi i rywun arall yng nghwrs busnes ac **nad** yw eich mangre neu gerbyd yn esempt, bydd angen tystysgrif gymeradwyo arnoch ar gyfer y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw.

Gallwch wneud cais am naill ai:

- Tystysgrif gymeradwyo sy'n ddilys am 3 blynedd neu
- Dystysgrif gymeradwyo dros dro sy'n ddilys am ddim mwy na 7 diwrnod.

Dyma rai enghreifftiau o amgylchiadau pan fydd gofyn i chi wneud cais am dystysgrif gymeradwyo ar gyfer y fangre neu'r cerbyd dan sylw:

- Os ydych chi'n berchen neu'n rhannol berchen ar weithgarwch neu fusnes sy'n rhoi un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig, neu fod gennych fuddiant busnes mewn gweithgarwch neu fusnes o'r fath.
- Os ydych chi'n berchen neu'n rhannol berchen ar adeilad, strwythur, cerbyd, mangre neu babell a ddefnyddir i roi un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig, neu fod gennych fuddiant fusnes ynddynt.
- Os ydych chi'n rheoli mangre, adeilad, cerbyd, pabell neu strwythur a ddefnyddir naill ai o bryd i'w gilydd neu'n rheolaidd ar gyfer un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig.

- Os ydych chi'n gweithredu o lety hunangynhwysol a phwrpasol mewn eiddo domestig fel perchennog/meddiannydd neu denant lle mae un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig yn cael ei rhoi.
- Chi yw'r person sy'n trefnu'r arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad lle mae un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig i'w rhoi yng nghwrs y busnes hwnnw.

Os ydych chi'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo ar ran busnes/sefydliad, mae angen dau enw ar y ffurflen gais:

- Enw'r person y mae'n ofynnol ei enwi yn y ffurflen gais, sef unigolyn megis perchennog, rheolwr, cyfarwyddwr cwmni, cyfarwyddwr gweithredol y busnes/sefydliad.
- Unigolyn a fydd yn bwynt cyswllt ar gyfer y cais, yn ogystal â'r pwynt cyswllt drwy gydol y dystysgrif gymeradwyo arfaethedig. Gall yr unigolyn hwn fod yn rheolwr rhanbarthol, rheolwr ardal, rheolwr safle ar gyfer y fangre/cerbyd a bod yn rhan o reolaeth weithredol/beunyddiol y fangre/cerbyd. Gall yr unigolyn hwn fod yr un person a nodwyd uchod ond bydd gofyn iddo ddarparu dogfennau adnabod a rhaid iddo feddu ar Ddyfarniad Lefel 2 a reoleiddir dilys mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Triniaethau Arbennig.

Bydd eich tystysgrif gymeradwyo neu eich tystysgrif gymeradwyo dros dro yn nodi'r triniaethau arbennig, a'r nifer uchaf o weithfannau sydd wedi eu hawdurdodi i weithredu yn y fangre neu'r cerbyd.

## 3.2 Cyn gwneud cais

- Rhaid i chi gwblhau a phasio'r Dyfarniad Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2 a reoleiddir ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig.
- Rhaid i chi gael copi o ddogfennau sy'n dangos pwy ydych chi a'ch dyddiad geni e.e. pasbort neu drwydded yrru.
- Penderfynwch faint o weithfannau y gellir eu lleoli yn y man gwaith triniaethau arbennig. Dylai pob gweithfan fod â digon o le i alluogi deiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan. Dylai fod o leiaf un metr o le rhwng perimedr y weithfan ac (a) gweithfan arall a (b) gosodiadau a ffitiadau eraill.
- Paratoi cynllun o'r fangre neu'r cerbyd sy'n destun y cais. **Rhaid** i'r cynllun gynnwys:

  (a) pwyntiau mynediad ac ymadael y fangre neu'r cerbyd,

  (b) y mesuriadau a disgrifiad o siâp yr ardaloedd (megis ystafelloedd) (os o gwbl) yn y fangre neu'r cerbyd,

  (c) pwyntiau mynediad ac ymadael yr ardaloedd (megis ystafelloedd) (os o gwbl) yn y fangre neu'r cerbyd,

(d) lleoliad y canlynol (os o gwbl) –

(i) sinciau cyfarpar,

(ii) biniau offer miniog,

(iii) ystafelloedd staff,

(iv) ardaloedd storio, cyfleusterau neu ystafelloedd ar gyfer cynhyrchion a/neu gyfarpar,

(v) toiledau,

(vi) ardaloedd neu ystafelloedd aros,

(vii) basnau golchi dwylo,

(viii) biniau gwastraff,

(ix) ffenestri, a

(x) gweithfannau.

- Gofalwch fod gennych ddigon o arian i dalu'r ffi ymgeisio, a
- Darllenwch y ffurflen gais yn ofalus, gan ei bod yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd manwl ar sut i gwblhau'r cais.

## 3.3 Y cais

- Rhaid i chi wneud cais i'r awdurdod lleol lle mae'r fangre wedi ei lleoli.
- Yn achos cerbyd, os ystyrir bod y cerbyd yn cael, neu'n debygol o gael, ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal awdurdod lleol penodol, rhaid gwneud cais i'r awdurdod lleol hwnnw.
- Gallwch wneud cais ar-lein drwy wefan eich awdurdod lleol neu lenwi copi papur.
- Llenwch y ffurflen gais gyfan gan ddefnyddio'r nodiadau cyfarwyddyd a'r rhestr wirio yn y ffurflen.
- Rhaid i chi gynnwys copïau o'r holl ddogfennau a nodir yn Rhan 6 o'r ffurflen gais.
- Cyflwynwch y ffurflen gais, dogfennau perthnasol a ffi i'r awdurdod lleol perthnasol.
- Bydd eich awdurdod lleol yn anfon cydnabyddiaeth o'ch cais. Yna dylech aros i gael cyfarwyddiadau pellach.

## 3.4 Tra bod y cais yn cael ei adolygu

- Efallai y bydd eich awdurdod lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai agweddau ar eich cais. Argymhellir y dylech ddarparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl.
- Yna bydd swyddog yr awdurdod lleol yn cysylltu â chi i wneud apwyntiad i ymweld â chi yn eich mangre neu gerbyd i gynnal cyfweliad ymgeisio ac arolygiad o'r fangre neu'r cerbyd.

- Cyn y cyfweliad a'r arolygiad, gofalwch eich bod wedi darllen yr adran **'Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio ac arolygiad o fangre/cerbyd'** isod.
- Ar ddiwedd y cyfweliad a'r arolygiad, bydd y swyddog yn trafod unrhyw gamau pellach y gallai fod angen eu cymryd cyn y gellir cymeradwyo eich cais.
- Bydd swyddog yr awdurdod lleol yn eich cynghori beth fydd yn digwydd nesaf.

## 3.5 Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio ac arolygiad o fangre/cerbyd

Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd basio cyfweliad, a rhaid arolygu'r fangre a'r cerbyd. Diben yr arolygiad yw sicrhau:

- Bod yr wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais yn adlewyrchu'r arsylwadau a wneir yn yr arolygiad.
- Bod manylebau'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais yn adlewyrchu'r trefniadau a'r safonau a ganfyddir yn ystod yr arolygiad.
- Bod y fangre/cerbyd mewn cyflwr da ac yn galluogi i driniaethau arbennig gael eu rhoi yn ddiogel ac yn hylan.

Diben y cyfweliad yw dangos eich gwybodaeth am y materion canlynol:

- dyletswyddau a osodir, o dan neu yn rhinwedd Rhan 4 o'r Ddeddf, ar ddeiliad tystysgrif,
- yr amodau cymeradwyo mandadol, a
- goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol.

Bydd swyddog o'r awdurdod lleol yn cynnal y cyfweliad a'r arolygiad yn eich mangre/cerbyd. I gael rhagor o wybodaeth am y mathau o gwestiynau y gellir eu gofyn i chi, gallwch gyfeirio at **Atodiad 2** 'Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio ac arolygiad'.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi hefyd gyfeirio at ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am atal a rheoli heintiau a'r egwyddorion y tu ôl i'r mesurau hyn.

## 3.6 Os cymeradwyir eich cais

Byddwch yn cael tystysgrif gymeradwyo.

- Bydd gan y dystysgrif hon rif tystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i chi a bydd yn enwi'r triniaethau arbennig sydd wedi eu hawdurdodi i'w rhoi yn eich mangre/cerbyd ac yn cadarnhau uchafswm nifer y gweithfannau y caniateir eu defnyddio yno.
- Byddwch hefyd yn cael amodau cymeradwyo y disgwylir i chi gydymffurfio â nhw.

- Bydd manylion eich tystysgrif gymeradwyo yn cael eu cyhoeddi ar **Gofrestr Gyhoeddus Triniaethau Arbennig Cymru**.
- Bydd eich tystysgrif gymeradwyo yn ddilys am 3 blynedd o'r dyddiad dyroddi a bydd eich tystysgrif gymeradwyo dros dro yn ddilys am ddim mwy na 7 diwrnod o'r dyddiad dyroddi.
- Gofalwch eich bod yn arddangos y dystysgrif gymeradwyo mewn man yn eich mangre/cerbyd lle gall cleientiaid ei gweld.

Os ydych am ychwanegu triniaeth arbennig arall neu gynyddu nifer y gweithfannau yn eich tystysgrif gymeradwyo, rhaid i chi gyflwyno cais i amrywio eich tystysgrif gymeradwyo. Mae rhagor o wybodaeth am wneud cais am amrywiad ar gael isod.

## 3.7 Os dywedir wrthych na all eich cais fynd yn ei flaen

- Bydd yr awdurdod lleol yn eich cynghori beth sydd angen i chi ei wneud i barhau â'r cais.
- Unwaith y byddwch wedi cwblhau gofynion yr awdurdod lleol, bydd yn bwrw ymlaen â rhoi eich tystysgrif gymeradwyo.
- Os na allwch gwblhau'r gofynion a nodwyd gan yr awdurdod lleol neu os ydych yn anghytuno â'r hyn y mae'n gofyn i chi ei wneud, bydd yr awdurdod lleol yn dweud wrthych pa opsiynau sydd ar gael i chi.

## 3.8 Os gwrthodir eich cais

Gall yr awdurdod lleol wrthod eich cais os nad yw'n fodlon eich bod wedi bodloni'r holl feini prawf cymeradwyo, hynny yw:

- bod rhaid i chi fod yn 18 oed neu hŷn,
- darparu tystiolaeth eich bod wedi pasio dyfarniad Lefel 2 a reoleiddir,
- cyflwyno cynllun o'r fangre neu'r cerbyd,
- cymryd rhan mewn cyfweliad ymgeisio a'i basio, a
- bod eich mangre/cerbyd wedi pasio'r arolygiad.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddweud wrthych y rhesymau pam y bydd yn gwrthod eich cais, a rhaid iddo roi amser i chi gyflwyno sylwadau iddo ynghylch ei fwriad i wrthod eich cais. Gallwch gael cyngor gan eich cynrychiolwyr cyfreithiol eich hun i'ch cynorthwyo gyda'r broses hon.

Rhaid i chi ddweud wrth yr awdurdod lleol os ydych am wneud sylwadau iddo. Gellir gwneud hyn ar lafar neu yn ysgrifenedig. Yn achos sylwadau llafar, mae gennych yr hawl i gynrychioli eich hun neu gael rhywun i'ch cynrychioli.

Bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynir fel rhan o'ch sylwadau ac yn gwneud penderfyniad terfynol ar eich cais. Os yw'r awdurdod lleol yn cytuno y dylid rhoi eich tystysgrif gymeradwyo, bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo, a rhoddir tystysgrif gymeradwyo i chi.

Os bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r dystiolaeth ac yn dod i'r casgliad y dylid gwrthod y dystysgrif gymeradwyo, rhaid iddo ddweud wrthych y rhesymau pam y bydd yn gwrthod eich cais.

Os ydych yn credu bod penderfyniad yr awdurdod lleol yn anghywir, mae llwybrau apelio pellach ar gael i chi (a nodir isod). Rhaid i'r awdurdod lleol ddweud wrthych sut y gallwch apelio yn erbyn ei benderfyniad.

## 3.9 Y broses apelio (drwy'r llysoedd)

Os byddwch yn cyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol (fel yr uchod) ac yn aflwyddiannus, gallwch apelio i'r llys ynadon os ydych yn credu bod penderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod eich cais yn anghywir. Bydd y llys ynadon yn penderfynu a all yr apêl fynd yn ei blaen ai peidio.

Os ydych yn dymuno bwrw ymlaen ag apêl, efallai yr hoffech gael cynrychiolaeth gyfreithiol i'ch cynghori ar wneud apêl, dogfennau i'w cyflwyno a thalu ffi'r llys.

Dylech fynd i wrandawiad yr apêl yn y llys ynadon.

Os byddwch yn ennill yr apêl, bydd yr awdurdod lleol yn bwrw ymlaen â'ch cais lle cafodd ei adael. Nid yw ennill apêl ar gam cynnar o'r broses ymgeisio yn eich esemptio rhag dilyn gweddill y broses ymgeisio.

Os bydd y llys ynadon yn penderfynu y dylai'r gwrthodiad sefyll a'ch bod yn colli'r apêl, bydd yn dweud wrthych pam.

Os ydych yn anghytuno â'i benderfyniad, efallai y bydd gennych sail i wneud apêl derfynol i Lys y Goron, ond bydd hyn yn golygu gwneud cais pellach am apêl, cyflwyno dogfennau a thalu ffi i'r llys.

Os byddwch yn ennill apêl Llys y Goron, bydd eich cais yn ailddechrau ar y cam yn y broses ymgeisio y cafodd ei wrthod. Os byddwch yn colli apêl Llys y Goron, bydd y penderfyniad yn sefyll gan nad oes llwybr apelio arall ar gael i chi oni bai bod yr amgylchiadau a arweiniodd at y gwrthodiad yn newid.

Pennod 4

# Sut i amrywio neu adnewyddu eich tystysgrif gymeradwyo ar gyfer mangre/cerbyd

## 4.1 Sut i amrywio eich tystysgrif gymeradwyo

- Efallai y bydd deiliad tystysgrif yn dymuno amrywio manylion ei dystysgrif gymeradwyo. Gellir gwneud hyn drwy wneud cais i'r awdurdod lleol a ddyroddodd eich tystysgrif gymeradwyo gyfredol.
- Bydd manylion sut i wneud cais am amrywiad i'ch tystysgrif gymeradwyo ar gael ar wefan eich awdurdod lleol.
- Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais a fydd yn gofyn am fanylion y newidiadau rydych yn gofyn amdanynt, a bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen gais wedi ei llenwi gyda ffi am yr amrywiad hwnnw.
- Wrth adolygu'r cais am amrywiad, gall yr awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth am rai agweddau ar yr amrywiad. Argymhellir eich bod yn darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl.

**Gallai'r amrywiadau gynnwys:**

- Ychwanegu triniaeth arbennig at y dystysgrif gymeradwyo, neu ddileu triniaeth arbennig o'r dystysgrif.
- Cynyddu neu leihau nifer y gweithfannau.
- Newidiadau sylweddol i strwythur neu ddyluniad y fangre.
- Newid enw deiliad y drwydded e.e. newid enw ar ôl priodi.

**Pan fo'r amrywiad yn ymwneud â newidiadau i strwythur neu ddyluniad y fangre neu'r cerbyd:**

- dylai'r cais gynnwys manylion llawn y newidiadau hynny,
- dylai hefyd gynnwys cynllun wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig, a
- bydd angen i ddeiliad y dystysgrif fodloni'r awdurdod lleol mewn arolygiad bod yr amrywiadau'n adlewyrchu'r amrywiadau arfaethedig a wnaed yn y cais.

**Nid yw'r amrywiadau'n cynnwys:**

- Trosglwyddo'r dystysgrif gymeradwyo o ddeiliad y dystysgrif i unigolyn arall.
- Ymestyn neu fyrhau cyfnod y dystysgrif gymeradwyo.
- Terfynu'r dystysgrif gymeradwyo.

Mae **Rhan 7** o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 yn amlinellu'r wybodaeth y gall fod ei hangen ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chais am amrywiad.

Mae cymeradwyo a gwrthod cais am amrywiad a'r broses apelio ar gyfer cais am amrywiad yn dilyn yr un broses a amlinellir uchod ar gyfer tystysgrif gymeradwyo ar gyfer mangre/cerbyd.

## 4.2 Sut i adnewyddu eich tystysgrif gymeradwyo

Mae'n ofynnol i ddeiliad tystysgrif gymeradwyo adnewyddu ei dystysgrif bob 3 blynedd.

- Rhaid adnewyddu o leiaf 28 diwrnod gwaith cyn dyddiad dod i ben y gymeradwyaeth a restrir ar y dystysgrif gymeradwyo.
- Dylech gyflwyno cais adnewyddu i'r awdurdod lleol a ddyroddodd eich tystysgrif gymeradwyo gyfredol.
- Bydd manylion am sut i wneud cais i adnewyddu eich tystysgrif gymeradwyo ar gael ar wefan yr awdurdod lleol. Mae'r ffurflen gais ar gyfer adnewyddu yn defnyddio'r un templed ag a ddefnyddiwyd ar gyfer eich cais gwreiddiol.
- Gallwch wneud cais ar-lein drwy wefan eich awdurdod lleol neu lenwi copi papur.
- Llenwch y ffurflen gais gyfan gan ddefnyddio'r nodiadau cyfarwyddyd a'r rhestr wirio yn y ffurflen.
- Rhaid i chi gynnwys copïau o'r holl ddogfennau a nodir yn Rhan 6 o'r ffurflen gais.
- Yna bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen gais gyda'r ffi adnewyddu.

Os bydd eich tystysgrif gymeradwyo yn dod i ben tra byddwch yn aros i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad i adnewyddu eich tystysgrif gymeradwyo, nid ystyrir bod eich tystysgrif gymeradwyo gyfredol wedi dod i ben a bydd yn parhau'n ddilys hyd nes y bydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad terfynol ac yn eich hysbysu o'r penderfyniad hwnnw.

Mae cymeradwyo a gwrthod cais i adnewyddu a'r broses apelio ar gyfer cais i adnewyddu yn dilyn yr un broses a amlinellir uchod ar gyfer tystysgrif gymeradwyo.

Pennod 5

# Tystysgrif gymeradwyo dros dro ar gyfer mangreoedd a cherbydau

**Gall tystysgrif gymeradwyo dros dro bara hyd at saith diwrnod os yw'n ymwneud â thriniaethau a roddir ar sail dros dro (h.y. yng nghwrs adloniant, arddangosfa neu ddigwyddiad arall). Felly, os yw'r broses o roi triniaeth(au) arbennig mewn mangre neu gerbyd wedi ei chyfyngu i ddim mwy na 7 diwrnod, dylai ymgeiswyr wneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro.**

Gall enghreifftiau gynnwys:

- Digwyddiad dros dro megis arddangosfa, confensiwn, sioe fasnach neu ŵyl awyr agored lle mae trefnydd digwyddiad yn gyfrifol am drefnu, gweithredu a rheoli'r digwyddiad dros dro hwnnw.
- Digwyddiad dros dro lle mae unigolyn yn dymuno llogi lle/llety, defnyddio ei gerbyd neu sefydlu strwythur dros dro mewn gŵyl neu ddigwyddiad i roi triniaeth(au) arbennig.

Bydd tystysgrif gymeradwyo dros dro yn ddilys am hyd at saith diwrnod. Yn achos digwyddiad dros dro fel confensiwn neu arddangosfa, trefnydd y digwyddiad yw:

- (o dan y Ddeddf) y person sy'n cynnal busnes triniaethau arbennig drwy gydol y digwyddiad, ac
- sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fangre/cerbyd yn cael ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol a bod y fangre/cerbyd yn gallu cydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol.

## Pwyntiau pwysig i ymgeiswyr am dystysgrif gymeradwyo dros dro

Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais am dystysgrif gymeradwyo dros dro wneud cais i'r awdurdod lleol lle bwriedir cynnal y digwyddiad o leiaf 28 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cymeradwyo arfaethedig.

Argymhellir eich bod yn cysylltu'n gynnar â'r awdurdod lleol i gael trafodaeth anffurfiol ar fanylion y digwyddiad, yn enwedig gwybodaeth am y maint a'r lleoliad arfaethedig.

Os yw trefnwyr digwyddiadau yn byw y tu allan i Gymru, gall awdurdodau lleol drefnu i gynnal y cyfweliad ymgeisio drwy blatfform cyfathrebu neu dros y ffôn.

Anogir ymgysylltu rheolaidd â'r awdurdod lleol.

Pennod 6

# Amodau Cymeradwyo Mandadol: Tystysgrif Gymeradwyo

**Fel deiliad tystysgrif gymeradwyo, mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r "Amodau cymeradwyo mandadol: tystysgrif gymeradwyo".**

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu pob amod cymeradwyo fel y'i hysgrifennwyd yn Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 ac yn rhoi esboniad byr o sut y gallwch gydymffurfio â phob amod.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif hefyd yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am atal a rheoli heintiau a'r egwyddorion y tu ôl i'r mesurau hyn.

## Cyfeiriad: Rheoliad 11(2) o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 (fel y nodir yn Atodlen 3)

### 1. Cyffredinol

**Mae Amod 1 yn cynnwys 7 gofyniad cyffredinol ar gyfer deiliad y dystysgrif.**

(1) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i unrhyw ddeiliaid trwydded roi triniaeth arbennig pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, neu unrhyw ran ohoni neu ohono, yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd dynol.

**Sut i gydymffurfio** – Cyfrifoldeb deiliad y dystysgrif yw sicrhau nad yw deiliad y drwydded yn rhoi triniaeth arbennig mewn unrhyw ran o'i fangre/cerbyd a gymeradwywyd os oes risg sylweddol, neu os yw'n debygol y bydd risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol. Gall enghreifftiau gynnwys:

- Mae'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd mewn cyflwr gwael o ran glendid neu atgyweiriadau.
- Mae risg y gall y fangre ddymchwel.
- Nid yw gwasanaethau o fewn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd yn gweithio, er enghraifft, y cyflenwad dŵr, gwres neu oleuadau.
- Mae llifogydd yn y fangre.
- Mae'r system ddraenio wedi ei rhwystro ac wedi arwain at halogi posibl gan garthion.
- Mae cyflwr gwael y man gwaith triniaethau arbennig yn debygol o atal glanhau'r weithfan yn effeithiol.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

**Sut i gydymffurfio** – Mae deiliad y dystysgrif yn gyfrifol am sicrhau bod y fangre/cerbyd a gymeradwywyd a'r ystafelloedd, y gosodiadau, y ffitiadau a'r cyfarpar sydd wedi eu cynnwys yn y fangre/cerbyd yn cael eu defnyddio at y diben y'u bwriadwyd a bod triniaethau arbennig a roddir yn ei fangre/cerbyd a gymeradwywyd yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn hylan, gyda'r risg leiaf o niwed i iechyd dynol.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif beryglu diogelwch, iechyd na llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff nac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio ei fangre neu ei gerbyd.

**Sut i gydymffurfio** – Drwy gydymffurfio'n llym â'r amodau cymeradwyo a galluogi deiliaid trwydded i gydymffurfio ag amodau eu trwydded, bydd deiliad y dystysgrif yn sicrhau diogelwch, iechyd a llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff ac aelodau o'r cyhoedd.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw a chynnal cofnod cyfredol o'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, gan gynnwys pob triniaeth arbennig y mae deiliad y drwydded wedi ei drwyddedu i'w rhoi.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r dystysgrif gymeradwyo yn nodi'r nifer uchaf o weithfannau y gall deiliad y dystysgrif eu defnyddio yn ei fangre/gerbyd.

O dan lawer o amgylchiadau, bydd nifer y deiliaid trwydded a gymeradwywyd i weithredu ym mangre deiliad y dystysgrif yn fwy na nifer y gweithfannau. Felly, rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw cofnod (copi electronig neu gopi caled) o enwau pob un o'r deiliaid trwydded sy'n gweithredu o'i fangre/cerbyd a gymeradwywyd, rhif eu trwydded a'r driniaeth/triniaethau arbennig y maent wedi eu trwyddedu i'w rhoi yn ei fangre/cerbyd.

(5) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i ddeiliaid trwydded weithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ond pan fo'r fangre neu'r cerbyd wedi ei nodi yn ei drwydded triniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau yr enwir ei fangre/cerbyd a gymeradwywyd ar drwydded deiliad y drwydded. Os na fydd yn gwneud hynny, ni all deiliad y drwydded weithredu o fangre/cerbyd a gymeradwywyd deiliad y dystysgrif.

(6) Ni chaniateir mynd y tu hwnt i uchafswm nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sydd wedi ei nodi ar y dystysgrif gymeradwyo.

**Sut i gydymffurfio** – Mae gweithfan yn cynnwys:

(a) gwely, cadair neu gyffelyb ar gyfer y cleient tra bo'r driniaeth yn cael ei rhoi,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig os oes angen, ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Mae nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd yn dibynnu ar faint a siâp y fangre neu'r cerbyd. Rhaid bod digon o le rhwng pob gweithfan i sicrhau bod modd rhoi'r driniaeth arbennig mewn ffordd ddiogel a hylan. Dylai fod o leiaf 1 metr o le rhwng perimedr y weithfan ac (a) gweithfan arall a (b) gosodiadau a ffitiadau eraill.

Rhaid i bob gweithfan fod wedi ei lleoli yn y man gwaith triniaethau arbennig. Pe bai deiliad y dystysgrif yn dymuno cynyddu nifer y gweithfannau a ddefnyddir, byddai angen iddo wneud cais am amrywiad i'w dystysgrif gymeradwyo.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(7) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn gweithredu mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r drwydded triniaeth arbennig a ddyroddwyd mewn perthynas â'r triniaethau arbennig a nodir yn y drwydded triniaeth arbennig (gan gynnwys yr amodau trwyddedu mandadol).

**Sut i gydymffurfio** – Mae cyfrifoldeb ar ddeiliad y dystysgrif i sicrhau bod y deiliaid trwydded sy'n gweithredu o'i fangre/cerbyd yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth eu trwydded.

Efallai y bydd deiliaid y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at **ddogfennau Canllawiau Deiliaid Trwydded Triniaeth Arbennig** sy'n cynnwys manylion yr amodau trwyddedu mandadol.

## 2. Materion sy'n Ymwneud â'r Dystysgrif Gymeradwyo

**Mae Amod 2 yn ymwneud â'r dystysgrif gymeradwyo ei hun a rhai camau penodol sy'n ofynnol gan ddeiliad y dystysgrif.**

(1) Rhaid i gopi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys fod ar gael yn rhwydd i'w arolygu ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gan gleient.

**Sut i gydymffurfio** – Gall y copi hwn fod naill ai'n gopi electronig neu'n gopi caled. Dylai'r swyddog awdurdodedig neu'r cleient allu darllen copïau electronig o'r amodau yn rhwydd.

(2) Ni chaniateir addasu'r dystysgrif gymeradwyo mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

**Sut i gydymffurfio** – Ni ddylai deiliad y dystysgrif neu drydydd parti newid y dystysgrif gymeradwyo mewn unrhyw ffordd. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif hefyd sicrhau bod y dystysgrif yn parhau i fod yn hawdd ei darllen ac nad yw'n mynd yn annarllenadwy.

(3) Mewn achos pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.

**Sut i gydymffurfio** – Cyn gynted ag y daw deiliad y dystysgrif yn ymwybodol bod y dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, dylai wneud cais i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol.

Byddai cyfnod rhesymol yn cael ei bennu gan yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r dystysgrif yn mynd ar goll, yn cael ei dwyn neu'n cael ei difrodi. Gall y cyfnod hwn amrywio, ond byddai'n rhesymol i ddeiliad y dystysgrif ofyn am gael un newydd yn ei lle unwaith y daw'n ymwybodol bod y drwydded wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi.

(4) Pan ddaw'r dystysgrif gymeradwyo i ben, rhaid dychwelyd y dystysgrif sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir dychwelyd y dystysgrif drwy'r post, ei dosbarthu â llaw neu ei rhoi yn uniongyrchol i swyddog yr awdurdod lleol. Fe'ch cynghorir i gadw copi o'r ohebiaeth hon.

(5) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ganddo sicrwydd yswiriant drwy'r amser yn ystod cyfnod y dystysgrif gymeradwyo. Rhaid i dystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys fod ar gael yn rhwydd i'w harolygu gan unrhyw swyddog awdurdodedig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i sicrwydd yswiriant dilys gael ei ddyroddi gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio deiliad y dystysgrif mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a all fod ganddo am y cyfnod y mae'r dystysgrif gymeradwyo yn parhau'n ddilys.

Dylai deiliad y dystysgrif ddisgwyl dangos y sicrwydd yswiriant i swyddog awdurdodedig ar gais.

## 3. Materion sy'n Ymwneud ag Arddangos Hysbysiadau a Mynediad Cyfyngedig

**Mae Amod 3 yn cynnwys 7 gofyniad ac mae'n ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig.**

(1) Rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo gael ei harddangos ym mynedfa cwsmeriaid y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd neu gerllaw iddi, neu yn y rhan ohoni neu ohono sy'n destun y dystysgrif gymeradwyo, ac mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos y dystysgrif gymeradwyo mewn rhan o'r fangre/cerbyd sy'n rhan o'r gymeradwyaeth. Mae lleoliadau addas yn cynnwys y dderbynfa neu'r ardal aros lle caniateir mynediad i gleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd. Os yw'r fangre a gymeradwywyd yn rhan o flaen siop, gellir arddangos y dystysgrif gymeradwyo ar y ffenestr sy'n wynebu tuag allan ar uchder y gall unigolion ei darllen.

Gellir arddangos copi o'r dystysgrif gymeradwyo neu rif y dystysgrif gymeradwyo ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol deiliad y dystysgrif hefyd (ond nid yn lle'r uchod).

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n datgan na fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi i unrhyw berson sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddarllen yn hawdd.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai'r hysbysiad hwn fod yn glir ac yn ddarllenadwy a rhaid ei arddangos mewn lleoliad megis derbynfa neu ardal aros y fangre/cerbyd a gymeradwywyd lle mae cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd yn debygol o'i weld a gallu ei ddarllen yn rhwydd.

Os yw'r busnes yn gweithredu drwy apwyntiad yn unig neu os nad oes ganddo ardal aros, dylid arddangos yr hysbysiad yn y lleoliad addas agosaf at fynedfa'r man gwaith triniaethau arbennig neu fynedfa fangre/cerbyd a gymeradwywyd.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i anifeiliaid ddod i mewn i'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac eithrio cŵn cymorth cofrestredig sy'n dod gyda chleient.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond cŵn cymorth cofrestredig y caiff deiliad y dystysgrif ganiatáu iddynt ddod i mewn i'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd. Mae ci cymorth wedi cael hyfforddiant penodol ac fe'i diffinnir o dan adran 173 o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

(4) Rhaid arddangos yn glir hysbysiad sy'n cynnwys cyfarwyddiadau golchi dwylo wrth bob basn golchi dwylo yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai pob basn golchi dwylo fod â hysbysiad neu boster yn dangos sut i olchi dwylo'n gywir. Dylai'r hysbysiad hwn fod wedi ei leoli'n agos at y basn golchi dwylo, ar y wal yn ddelfrydol.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adrannau 4 a 14.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n darparu rhagor o wybodaeth am olchi dwylo.

(5) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod deiliad y drwydded yn glynu wrth y rhwymedigaeth sydd arno na chaiff ond caniatáu i gleient ddod ag unigolyn arall gydag ef os nad yw presenoldeb yr unigolyn arall hwnnw yn ystod y driniaeth arbennig yn peri risg uwch o haint.

**Sut i gydymffurfio** – Gall presenoldeb unigolion ychwanegol yn y man gwaith triniaethau arbennig rwystro deiliad y drwydded rhag rhoi'r driniaeth arbennig honno yn ddiogel ac yn hylan. Gan y bydd y man gwaith triniaethau arbennig yn gyfyng o ran lle, gall unrhyw berson ychwanegol gynyddu'r risg o haint. Cyfrifoldeb deiliad y dystysgrif felly yw sicrhau bod deiliad y drwydded yn cadw at amodau ei drwydded.

Gall deiliad y drwydded ganiatáu i unigolyn ddod gyda'r cleient lle bernir bod digon o le yn y man gwaith triniaethau arbennig fel na fydd yr unigolyn yn peri risg uwch o haint.

Gall unigolion gynnwys rhieni, gwarcheidwaid a gweithwyr gofal.

(6) Rhaid cyfyngu ar fynediad i'r man gwaith triniaethau arbennig i neb ond deiliad y drwydded, deiliad y dystysgrif, personau sydd wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (sy'n cynnwys y cleient ac unigolyn sy'n dod gyda'r cleient) a chŵn cymorth cofrestredig (os ydynt yn gymwys). Dim ond rhan o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd y caniateir i unrhyw unigolion eraill gael mynediad iddi pan na fo hynny'n peri risg uwch o haint.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r man gwaith triniaethau arbennig wedi ei ddynodi'n benodol at ddiben rhoi triniaethau arbennig, felly ni ddylid ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall tra mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rhoi triniaethau arbennig. Dylai deiliad y dystysgrif fodloni ei hun bod mynediad cyfyngedig i'r man hwn neu'r ystafell hon.

Byddai unigolion sy'n dod gyda'r cleient yn cael aros yn y man aros neu'r dderbynfa os oes un.

(7) Rhaid nodi'n glir y mannau y gwaherddir mynediad y cyhoedd iddynt yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a rhaid cyfyngu ar fynediad aelodau o'r cyhoedd i'r canlynol:

(a) gweithfannau (oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (i gynnwys cleient ac unigolyn sy'n dod gyda chleient)),

(b) mannau ac ystafelloedd lle y mae sbwriel sy'n deillio o'r driniaeth arbennig yn cael ei gasglu a'i storio, ac

(c) unrhyw fannau lle y mae cyfarpar a chynhyrchion sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig yn cael ei storio neu eu storio.

**Sut i gydymffurfio** – gellir adnabod yr ardaloedd hyn drwy hysbysiadau arddangos 'dim mynediad' neu 'mynediad awdurdodedig yn unig' neu gallant fod yn ddigon diogel er mwyn caniatáu unigolion awdurdodedig yn unig.

## 4. Dyluniad, Strwythur ac Amgylchedd Ffisegol

**Mae Amod 4 yn cynnwys 17 o ofynion ac yn ymwneud â'r dyluniad, y strwythur a'r amgylchedd ffisegol:**

(1) Ni chaniateir rhoi triniaeth arbennig ond mewn gweithfan yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r weithfan wedi ei lleoli yn y man gwaith triniaethau arbennig ac mae'n cynnwys:

(a) gwely, cadair neu gyffelyb ar gyfer y cleient tra bo'r driniaeth yn cael ei rhoi,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig os oes angen, ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod dyluniad, maint, strwythur a chyflwr y fangre neu'r cerbyd yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

**Sut i gydymffurfio** – Dylid dylunio'r fangre/cerbyd i hwyluso llif gwaith 'glân' i 'fudr' wrth roi triniaethau arbennig. Bydd hyn yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Dylai'r fangre/cerbyd fod o faint digonol i leihau annibendod a galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol i gael ei gyflawni'n rhwydd ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd.

Mae strwythur y fangre/cerbyd yn cynnwys y rhannau sefydlog. Er enghraifft, y waliau, y lloriau, y nenfydau, y drysau, y ffenestri, y pibellau, y grisiau, a'r gwteri. Dylai'r rhain allu cael eu glanhau a'u diheintio'n effeithiol.

Gallai cyflwr gwael dyluniad neu strwythur y fangre/cerbyd atal gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Cyfrifoldeb deiliad y dystysgrif yw sicrhau bod cyflwr da yn cael ei gynnal, gan alluogi gwaith glanhau effeithiol.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ddeiliaid trwydded gyfeirio at adrannau 8 a 9 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n darparu gwybodaeth fanylach am lanhau a dyluniad, strwythur ac amgylchedd ffisegol.

(3) Rhaid i'r holl arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol yn y man gwaith triniaethau arbennig fod o'r fath ddeunydd a dyluniad, a chael eu cadw mewn cyflwr da, i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y dystysgrif sicrhau, pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol, fod arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol yn y man gwaith triniaethau arbennig mewn cyflwr da a, lle bo'n briodol, yn gweithio'n gywir i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

Rhaid i arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol fod wedi eu gwneud o ddeunyddiau ac wedi eu dylunio i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

(4) Pan ddarperir man aros, rhaid ei wahanu'n ffisegol oddi wrth y man gwaith triniaethau arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i'r man aros fod wedi ei wahanu'n ffisegol oddi wrth y man gwaith triniaethau arbennig yn y fath fodd fel ei fod yn rhwystro unigolion rhag symud o'r man aros i'r man gwaith triniaethau arbennig heb awdurdodiad. Mae hyn yn ofynnol er mwyn lleihau'r risg o haint yn y man gwaith triniaethau arbennig.

(5) Rhaid bod gan y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd gyfleusterau toiled y gall deiliaid trwydded, staff a chleientiaid eu cyrraedd a'u defnyddio'n rhwydd.

**Sut i gydymffurfio** – Pan nad yw'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd yn cynnwys cyfleusterau toiled, dylai deiliad y dystysgrif wneud trefniadau i ddeiliaid trwydded, staff a chleientiaid allu cael mynediad i gyfleusterau toiled yn agos at y fangre/cerbyd a gymeradwywyd.

(6) Pan ddarperir cyfleusterau toiled yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, rhaid iddynt gael eu hawyru a chynnwys basn golchi dwylo sydd â chyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig.

**Sut i gydymffurfio** – Gall awyru fod yn naturiol neu'n fecanyddol. Gellir darparu uned basn golchi dwylo cludadwy, ond dim ond pan nad oes pibellau addas ar gael. Mae basnau golchi dwylo cludadwy yn gofyn am ddilyn trefn cynnal a chadw gaeth, felly nid ydynt yn cael eu hargymell.

(7) Rhaid i'r weithfan fod â digon o le er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r weithfan yn cynnwys:

(a) gwely, cadair neu gyffelyb ar gyfer y cleient tra bo'r driniaeth yn cael ei rhoi,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig os oes angen, ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Mae "digon o le" yn golygu digon o le ar gyfer y cleient a galluogi deiliad y drwydded i symud yn rhydd rhwng rhoi'r driniaeth arbennig a chyrchu offerynnau a chynhyrchion o'r arwyneb gwaith.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am weithfannau.

(8) Rhaid i'r man gwaith triniaethau arbennig gynnwys yr holl weithfannau a'r holl gyfleusterau ar gyfer storio'n lân gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn atal y risg o halogiad.

**Sut i gydymffurfio** – Ardal neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir ar gyfer rhoi triniaeth arbennig yw man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid iddo gynnwys o leiaf:

- 1 weithfan,
- 1 basn golchi dwylo,
- 1 bin gwastraff, a
- bin offer miniog (os oes angen).

Gall hefyd gynnwys cyfleusterau a chyfarpar i gefnogi rhoi triniaeth arbennig, megis storio.

Mae ardal neu ystafell "ddynodedig" yn golygu ei bod yn cael ei dewis yn benodol at ddiben rhoi triniaeth arbennig, felly ni ddylid ei defnyddio at unrhyw ddiben arall tra mae'n cael ei defnyddio ar gyfer rhoi triniaethau arbennig.

Dylai deiliad y dystysgrif fodloni ei hun bod mynediad cyfyngedig i'r ardal neu'r ystafell hon.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y man gwaith triniaethau arbennig.

(9) Rhaid darparu cyfleusterau addas ar gyfer storio'n hylan gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn osgoi'r risg o halogiad.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai cyfleusterau storio fod o faint digonol i alluogi gwahanu cynhyrchion a chyfarpar yn briodol. Dylai cyfleusterau storio fod yn gaeedig i leihau'r risg o halogiad, a dylent fod wedi eu gwneud o ddeunyddiau sy'n galluogi gwaith glanhau.

(10) Rhaid darparu trefniadau addas ar gyfer storio, rheoli ac adalw cofnodion cleientiaid yn ddiogel, sy'n ymwneud â'r triniaethau arbennig sy'n cael eu cynnig a'u rhoi.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir cadw cofnodion cleientiaid naill ai'n electronig neu'n ffisegol. Dylai'r storfa fod yn ddiogel fel ei bod yn atal mynediad heb awdurdod.

Mae'r amod hwn yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol pan fydd deiliad y dystysgrif yn cyflogi deiliaid trwydded. Pan fo deiliad y dystysgrif yn rhentu cadeiriau i ddeiliaid trwydded hunangyflogedig, efallai na fydd yr amod hwn yn berthnasol os yw deiliad y drwydded yn rheoli cofnodion eu cleientiaid yn uniongyrchol.

(11) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio'n addas ac sydd ar gael yn rhwydd yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd sy'n diwallu anghenion cymorth cyntaf y triniaethau arbennig a roddir yno.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod ganddo ef a deiliaid trwydded fynediad at becyn cymorth cyntaf, sydd wedi ei stocio'n addas ac sy'n diwallu anghenion y driniaeth arbennig a roddir yn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at wefan **yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** (HSE) sy'n rhoi rhagor o gyngor ar gymorth cyntaf.

(12) Rhaid i'r goleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd yn gweithredu'n ddiogel ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Pan fo angen, rhaid darparu goleuadau lleol ym mhob gweithfan i sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn ddiogel ac yn hylan.

**Sut i gydymffurfio** – Mae goleuadau'n cynnwys golau naturiol ac artiffisial. Bydd y lefelau golau sydd eu hangen yn dibynnu ar y gweithgarwch a wneir mewn ardal benodol. Yn y man gwaith triniaethau arbennig lle mae triniaeth arbennig yn cael ei rhoi, efallai y bydd angen 750 LUX.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at **wefan HSE** ac adran 9.1 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am oleuadau.

(13) Rhaid darparu awyriad digonol i'r man gwaith triniaethau arbennig yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Sut i gydymffurfio** – Gall awyru fod naill ai o ddulliau naturiol neu fecanyddol. Mae awyru naturiol yn dibynnu ar ddrysau, ffenestri, awyrellau, brics aer neu ddellt i ddarparu aer. Mae awyru mecanyddol yn defnyddio ffaniau a phibellau i symud aer i mewn ac allan o ystafelloedd neu i chwythu aer glân i mewn i ystafelloedd a/neu dynnu hen aer.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at **wefan HSE** ac adran 9.1 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am awyru.

(14) Rhaid darparu nifer addas o fasnau golchi dwylo sydd ar gael yn rhwydd ym mhob man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid i'r basnau golchi dwylo weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da.

**Sut i gydymffurfio** – Bydd nifer y basnau golchi dwylo yn dibynnu ar nifer y gweithfannau mewn man gwaith triniaethau arbennig a lleoliad y basn golchi dwylo mewn perthynas â phob gweithfan. Dylai pob deiliad trwydded sy'n gweithredu o weithfan fod â mynediad rhwydd ac uniongyrchol i fasn golchi dwylo.

O'i leoli'n briodol, mae'n bosibl y gallai un basn golchi dwylo wasanaethu tair gweithfan.

Mae "cyflwr da" yn golygu bod y basn golchi dwylo mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn i alluogi golchi dwylo.

Gall basnau golchi dwylo naill ai fod â thapiau a weithredir â llaw neu dapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw. Mae tapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw yn cael eu hystyried yn 'arfer gorau' gan eu bod yn lleihau'r risg o halogi a throsglwyddo micro-organebau.

Gellir darparu uned basn golchi dwylo cludadwy, ond dim ond pan nad oes pibellau addas ar gael. Mae basnau golchi dwylo cludadwy yn gofyn am ddilyn trefn cynnal a chadw gaeth, felly nid ydynt yn cael eu hargymell.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 4.3 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth am fasnau golchi dwylo.

(15) Rhaid i'r holl fasnau golchi dwylo mewn man gwaith triniaethau arbennig gynnwys cyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig sy'n agos i'r basn golchi dwylo.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol p'un a yw'r basn golchi dwylo wedi ei blymio i mewn neu'n un symudol. Yn ddelfrydol, dylai'r peiriant caeedig fod wedi ei osod naill ai uwchben neu yn ymyl y basn golchi dwylo.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 4.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am fasnau golchi dwylo symudol.

(16) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl fasnau golchi dwylo at ddefnydd y deiliaid trwydded yn cael eu stocio'n llawn â sebon hylif a thywelion papur.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai sebon hylif a thywelion papur tafladwy fod ar gael bob amser wrth y basnau golchi dwylo.

(17) Ni chaniateir defnyddio basnau golchi dwylo ond at ddibenion golchi dwylo ac elinau.

**Sut i gydymffurfio** – Ni ddylid byth golchi cyfarpar nac offerynnau yn y basn golchi dwylo.

## 5. Dihalogi, Glanhau, Diheintio a Sterileiddio

**Mae Amod 5 yn cynnwys 4 gofyniad sy'n ymwneud â dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio:**

(1) Mae Amod 5 yn cynnwys 4 gofyniad sy'n ymwneud â dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio.

**Sut i gydymffurfio** – Gall deiliad y dystysgrif gadw'r amgylchedd 'yn lân ac yn daclus' drwy fabwysiadu polisi 'glanhau wrth i chi fynd' a chadw'r fangre/cerbyd yn rhydd o annibendod. Bydd gweithredu amserlenni glanhau priodol a chadw trefn dda yn sicrhau bod y fangre/cerbyd yn weledol lân ac mewn cyflwr da.

(2) Rhaid gweithredu amserlen lanhau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y fangre, y gosodiadau, y ffitiadau, y dodrefn, y cyfarpar a'r offerynnau.

**Sut i gydymffurfio** – Bydd amserlen lanhau "sy'n addas ac yn ddigonol" yn cael ei phennu yn ôl maint y busnes. Os gweithredir y fangre/cerbyd a gymeradwywyd gan un neu ddau berson, mae'n annhebygol y bydd angen cofnodi'r amserlen lanhau cyn belled â'i bod yn amlwg bod safonau glanhau da yn cael eu cyflawni a bod deiliad y dystysgrif yn gwbl ymwybodol o arferion glanhau a diheintio a'r cynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer y gweithgareddau hyn. Efallai y bydd busnes mwy gyda nifer o ddeiliaid trwydded a staff yn ei chael hi'n haws cael amserlen ysgrifenedig gyda rolau wedi eu dyrannu'n glir, amlder glanhau a diheintio a chynhyrchion i'w defnyddio.

Dylai'r amserlen lanhau fod yn berthnasol i bob rhan o'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 8 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am lanhau amgylcheddol.

(3) Rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau, diheintio a, phan fo angen, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill. Rhaid gwahanu'r ddarpariaeth hon oddi wrth yr holl weithfannau, a rhaid iddi adlewyrchu'r triniaethau a roddir yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu cyfarpar ar gyfer glanhau, diheintio a, lle bo angen, sterileiddio'r holl gyfarpar, offerynnau ac eitemau nad ydynt yn dafladwy sy'n gysylltiedig â rhoi triniaeth arbennig.

Mae'r cyfleusterau'n cynnwys darparu ystafell neu ardal ar wahân, i ffwrdd o'r gweithfannau, a gall y trefniadau gynnwys darparu cyfarpar a chontractau cynnal a chadw a gwasanaethu.

Dylai'r gofyniad hwn adlewyrchu'r driniaeth arbennig a'r ffordd y caiff ei rhoi. Er enghraifft, ni fydd angen cyfarpar sterileiddio ar ddeiliad trwydded sy'n mabwysiadu polisi untro.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am ddihalogi.

(4) Rhaid defnyddio, cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir at ddiben glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a rhaid cael cofnodion ar ffurf dogfen i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi eu cynnal i ddilysu'r defnydd o'r cyfarpar hwnnw.

**Sut i gydymffurfio** – Mae cynnal a chadw a gwasanaethu cyfarpar yn hanfodol er mwyn sicrhau dihalogi effeithiol. Mae copïau caled neu electronig o gofnodion yn dderbyniol.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am ddihalogi.

## 6. Gwastraff gan gynnwys offer miniog

**Mae Amod 6 yn cynnwys 6 gofyniad sy'n ymwneud â gwastraff gan gynnwys offer miniog.**

**Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 23 o Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am reoli gwastraff.**

(1) Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff a sbwriel arall.

**Sut i gydymffurfio** – Wrth wneud darpariaeth ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff, rhaid i ddeiliad y dystysgrif ystyried yr holl wastraff a gynhyrchir yn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd, y triniaethau arbennig a roddir, y cynhyrchion a'r eitemau tafladwy a ddefnyddir gan ddeiliaid trwydded a nifer y deiliaid trwydded a staff sy'n gweithio yn y fangre/cerbyd.

Dylid storio gwastraff mewn ardal ddiogel bwrpasol wrth aros iddo gael ei gasglu.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am reoli gwastraff.

(2) Rhaid darparu nifer ddigonol o finiau gwastraff hawdd eu glanhau, nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw, yn y man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid i'r biniau gwastraff fod wedi eu hadeiladu'n briodol a chael eu cadw mewn cyflwr da a glân.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond biniau gwastraff nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw y dylid eu defnyddio, a dylent fod wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll anhyblyg. Dylai biniau gwastraff fod ar gael yn rhwydd i'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithio yn y man gwaith triniaethau arbennig.

(3) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu nifer addas o finiau offer miniog a sicrhau eu bod mewn lleoliad diogel yn agos i'r holl weithfannau.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r "bin offer miniog" yn golygu cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â'r cod EWC 20 01 99 a ddyluniwyd i waredu offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig yn ddiogel.

Dylai biniau offer miniog fod ar gael yn rhwydd ac yn uniongyrchol o bob gweithfan ac ni ddylid eu lleoli ar lawr y man gwaith triniaethau arbennig.

Bydd nifer y biniau offer miniog yn cael ei bennu gan nifer y gweithfannau a nifer y deiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre honno. Byddai angen mwy o finiau offer miniog ar fangre/cerbyd prysur na mangre/cerbyd tawelach.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am wastraff offer miniog.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod darpariaeth addas wedi ei gwneud ar gyfer gwaredu a storio gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus, ac ar gyfer eu storio ar wahân.

**Sut i gydymffurfio** –Tra'i fod yn cael ei storio yn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd, mae'n ofynnol i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod gwastraff yn cael ei gadw ar wahân yn briodol.

Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff fod drwy ddefnyddio cludydd gwastraff trwyddedig.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am reoli gwastraff.

(5) Rhaid marcio tarddle (enw a chyfeiriad y busnes) yr holl wastraff clinigol nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) cyn eu gwaredu.

**Sut i gydymffurfio** – Y "tarddle" yw enw a chyfeiriad y busnes sy'n gweithredu o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

(6) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y gwastraff clinigol, nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre neu'r cerbyd a rhaid iddo fod ar gael i'w arolygu gan swyddog awdurdodedig.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir cadw cofnodion gwastraff naill ai fel copïau electronig neu gopïau caled.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am reoli gwastraff.

Pennod 7

# Amodau Cymeradwyo Mandadol: Tystysgrif Gymeradwyo Dros Dro

Fel deiliad tystysgrif gymeradwyo dros dro, mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r "Amodau Cymeradwyo Mandadol: tystysgrif gymeradwyo dros dro".

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu pob amod cymeradwyo fel y'i hysgrifennwyd yn Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 ac yn rhoi esboniad byr o sut y gallwch gydymffurfio â phob amod.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif hefyd yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am atal a rheoli heintiau a'r egwyddorion y tu ôl i'r mesurau hyn.

## Cyfeiriad: Rheoliad 11(3) o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 (a nodir yn Atodlen 4)

### 1. Cyffredinol

**Mae Amod 1 yn cynnwys 7 gofyniad cyffredinol ar gyfer deiliad y dystysgrif.**

(1) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i unrhyw ddeiliaid trwydded roi triniaeth arbennig pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, neu unrhyw ran ohoni neu ohono, yn peri, neu'n debygol o beri, risg sylweddol o niwed i iechyd dynol.

**Sut i gydymffurfio** – Cyfrifoldeb deiliad y dystysgrif yw sicrhau nad yw deiliad y drwydded yn rhoi triniaeth arbennig mewn unrhyw ran o'i fangre/cerbyd a gymeradwywyd os oes risg sylweddol, neu os yw'n debygol y bydd risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol. Gall enghreifftiau gynnwys:

- Mae'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd mewn cyflwr gwael o ran glendid neu atgyweiriadau.
- Mae risg y gall y fangre ddymchwel.
- Nid yw gwasanaethau o fewn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd yn gweithio, er enghraifft, y cyflenwad dŵr, gwres neu oleuadau.
- Mae llifogydd yn y fangre.
- Mae'r system ddraenio wedi ei rhwystro ac wedi arwain at halogi posibl gan garthion.
- Mae cyflwr gwael y man gwaith triniaethau arbennig yn debygol o atal glanhau'r weithfan yn effeithiol.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn cael ei defnyddio neu ei ddefnyddio yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

**Sut i gydymffurfio** – Mae deiliad y dystysgrif yn gyfrifol am sicrhau bod y fangre/cerbyd a gymeradwywyd a'r ystafelloedd, y gosodiadau, y ffitiadau a'r cyfarpar sydd wedi eu cynnwys yn y fangre/cerbyd yn cael eu defnyddio at y diben y'u bwriadwyd a bod triniaethau arbennig a roddir yn ei fangre/cerbyd a gymeradwywyd yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn hylan, gyda'r risg leiaf o niwed i iechyd dynol.

Dylai trefnwyr digwyddiadau sy'n rheoli digwyddiadau mawr fodloni eu hunain bod y cyhoedd yn cael eu cyfyngu i bob pwrpas rhag mynd i mewn i'r man(nau) gwaith triniaethau arbennig i leihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif beryglu diogelwch, iechyd na llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff nac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio ei fangre neu ei gerbyd.

**Sut i gydymffurfio** – Drwy gydymffurfio'n llym â'r amodau cymeradwyo a galluogi deiliaid trwydded i gydymffurfio ag amodau eu trwydded, bydd deiliad y dystysgrif yn sicrhau diogelwch, iechyd a llesiant cleientiaid, deiliaid trwydded, staff ac aelodau o'r cyhoedd.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gadw a chynnal cofnod cyfredol o'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, gan gynnwys pob triniaeth arbennig y mae deiliad y drwydded wedi ei drwyddedu i'w rhoi.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r dystysgrif gymeradwyo yn nodi'r uchafswm o weithfannau y gall deiliad y dystysgrif eu defnyddio yn ei fangre/cerbyd. Mewn rhai digwyddiadau, gall deiliaid trwydded rannu gweithfan, felly bydd nifer y deiliaid trwydded a gymeradwywyd i weithredu ym mangre deiliad y dystysgrif yn fwy na nifer y gweithfannau. Felly, dylai deiliad y dystysgrif gadw cofnod (copi electronig neu gopi caled) o enwau pob un o'r deiliaid trwydded sy'n gweithredu yn ei ddigwyddiad, rhif eu trwydded a'r driniaeth/triniaethau arbennig y maent wedi eu trwyddedu i'w rhoi yn ei fangre/cerbyd.

(5) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i ddeiliaid trwydded weithredu yn y fangre neu ei gerbyd a gymeradwywyd ond pan fo'r fangre neu'r cerbyd wedi ei phennu neu wedi ei bennu yn ei drwydded triniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau yr enwir ei fangre/cerbyd a gymeradwywyd ar drwydded deiliad y drwydded. Os na fydd yn gwneud hynny, ni all deiliad y drwydded weithredu o fangre/cerbyd a gymeradwywyd deiliad y dystysgrif.

(6) Ni chaniateir mynd y tu hwnt i uchafswm nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sydd wedi ei nodi ar y dystysgrif gymeradwyo.

**Sut i gydymffurfio** – Mae gweithfan yn cynnwys:

(a) gwely, cadair neu gyffelyb ar gyfer y cleient tra bo'r driniaeth yn cael ei rhoi,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig os oes angen, ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Mae nifer y gweithfannau a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y fangre neu'r cerbyd yn dibynnu ar faint a siâp y fangre neu'r cerbyd. Rhaid bod digon o le rhwng pob gweithfan i sicrhau bod modd rhoi'r driniaeth arbennig mewn ffordd ddiogel a hylan. Dylai fod o leiaf 1 metr o le rhwng perimedr y weithfan ac (a) gweithfan arall a (b) gosodiadau a ffitiadau eraill.

Rhaid i bob gweithfan fod wedi ei lleoli yn y man gwaith triniaethau arbennig.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach.

(7) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd yn gweithredu mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r drwydded triniaeth arbennig a ddyroddwyd mewn perthynas â'r triniaethau arbennig a nodir yn y drwydded triniaeth arbennig (gan gynnwys yr amodau trwyddedu mandadol).

**Sut i gydymffurfio** – Mae cyfrifoldeb ar ddeiliad y dystysgrif i sicrhau bod y deiliaid trwydded sy'n gweithredu o'i fangre/cerbyd yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth eu trwydded. Mae hyn yn arbennig o bwysig i drefnwyr digwyddiadau lle nad yw deiliaid trwydded o'r tu allan i Gymru yn gyfarwydd â manylion amodau eu trwydded.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at Ganllawiau Triniaethau Arbennig perthnasol sy'n cynnwys manylion yr amodau trwyddedu mandadol.

## 2. Materion sy'n Ymwneud â'r Dystysgrif Gymeradwyo Dros Dro

**Mae Amod 2 yn ymwneud â'r dystysgrif gymeradwyo dros dro ei hun a rhai camau penodol sy'n ofynnol gan ddeiliad y dystysgrif.**

(1) Rhaid i gopi o'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys fod ar gael yn rhwydd i'w arolygu ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gan gleient.

**Sut i gydymffurfio** – Gall y copi hwn fod naill ai'n gopi electronig neu'n gopi caled. Dylai'r swyddog awdurdodedig neu'r cleient allu darllen copïau electronig o'r amodau yn rhwydd.

(2) Ni chaniateir addasu'r dystysgrif gymeradwyo mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

**Sut i gydymffurfio** – Ni ddylai deiliad y dystysgrif neu drydydd parti newid y dystysgrif gymeradwyo mewn unrhyw ffordd. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif hefyd sicrhau bod y dystysgrif yn parhau i fod yn hawdd ei darllen ac nad yw'n mynd yn annarllenadwy.

(3) Mewn achos pan fo'r dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.

**Sut i gydymffurfio** – Cyn gynted ag y daw deiliad y dystysgrif yn ymwybodol bod y dystysgrif gymeradwyo wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, dylai wneud cais i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol. Byddai cyfnod rhesymol yn cael ei bennu gan yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r dystysgrif yn mynd ar goll, yn cael ei dwyn neu'n cael ei difrodi. Gall y cyfnod hwn amrywio, ond byddai'n rhesymol i ddeiliad y drwydded ofyn am gael un newydd yn ei lle ar unwaith os daw'n ymwybodol bod y drwydded wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi.

(4) Pan ddaw'r dystysgrif gymeradwyo i ben, rhaid dychwelyd y dystysgrif sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir dychwelyd y dystysgrif drwy'r post, ei dosbarthu â llaw neu ei rhoi yn uniongyrchol i swyddog yr awdurdod lleol. Fe'ch cynghorir i gadw copi o'r ohebiaeth hon.

(5) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod ganddo sicrwydd yswiriant drwy'r amser yn ystod cyfnod y dystysgrif gymeradwyo pan fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd. Rhaid i dystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys fod ar gael yn rhwydd i'w harolygu gan unrhyw swyddog awdurdodedig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i sicrwydd yswiriant dilys gael ei ddyroddi gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio deiliad y dystysgrif mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a all fod ganddo am y cyfnod y mae'r dystysgrif gymeradwyo yn parhau'n ddilys.

Dylai deiliad y dystysgrif ddisgwyl dangos y sicrwydd yswiriant i swyddog awdurdodedig ar gais.

## 3. Materion sy'n Ymwneud ag Arddangos Hysbysiadau a Mynediad Cyfyngedig

**Mae Amod 3 yn cynnwys 6 gofyniad ac mae'n ymwneud ag arddangos hysbysiadau a mynediad cyfyngedig.**

(1) Rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo gael ei harddangos ym mynedfa cwsmeriaid y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd neu gerllaw iddi, neu yn y rhan ohoni neu ohono sy'n destun y dystysgrif gymeradwyo, ac mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos y dystysgrif gymeradwyo mewn rhan o'r fangre/cerbyd sy'n rhan o'r gymeradwyaeth. Mae lleoliadau addas yn cynnwys y dderbynfa neu'r man aros lle caniateir mynediad i gleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd. Os yw'r dystysgrif gymeradwyo yn ymwneud â digwyddiad dros dro, dylid arddangos y dystysgrif gymeradwyo wrth fynedfa neu dderbynfa'r digwyddiad yn hytrach na'r fynedfa gyffredinol i'r adeilad sy'n cynnal y digwyddiad.

Pan fo'r fangre a gymeradwywyd yn rhan o ffrynt siop, gellir arddangos y dystysgrif gymeradwyo ar y ffenestr sy'n wynebu tuag allan ar uchder y gall unigolion ei darllen.

Gellir arddangos copi o'r dystysgrif gymeradwyo neu rif y dystysgrif gymeradwyo ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol deiliad y dystysgrif neu'r digwyddiad hefyd (ond nid yn lle'r uchod).

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif arddangos hysbysiad sy'n datgan na fydd triniaethau arbennig yn cael eu rhoi i unrhyw berson sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod mewn lleoliad sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddarllen yn hawdd.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai'r hysbysiad hwn fod yn glir ac yn ddarllenadwy a rhaid ei arddangos mewn lleoliad megis derbynfa neu fan aros y fangre/cerbyd a gymeradwywyd lle mae cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd yn debygol o'i weld a gallu ei ddarllen yn hawdd.

Yn achos digwyddiad dros dro, dylid arddangos yr hysbysiad wrth fynedfa neu dderbynfa'r digwyddiad yn hytrach na'r fynedfa gyffredinol i'r adeilad sy'n cynnal y digwyddiad.

Os yw'r busnes neu'r digwyddiad yn gweithredu drwy apwyntiad yn unig neu os nad oes ganddo fan aros, dylid arddangos yr hysbysiad yn y lleoliad addas agosaf at fynedfa'r man gwaith triniaethau arbennig.

Mewn digwyddiadau mawr, efallai y bydd trefnydd y digwyddiad yn dymuno arddangos sawl copi o'r dystysgrif gymeradwyo mewn gwahanol rannau o'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd.

(3) Ni chaiff deiliad y dystysgrif ganiatáu i anifeiliaid ddod i mewn i'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac eithrio cŵn cymorth cofrestredig sy'n dod gyda chleient.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond cŵn cymorth cofrestredig y caiff deiliad y dystysgrif ganiatáu iddynt ddod i mewn i'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd. Mae ci cymorth wedi cael hyfforddiant penodol ac fe'i diffinnir o dan adran 173 o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

(4) Rhaid cyfyngu ar fynediad i fan gwaith triniaethau arbennig i neb ond deiliad y drwydded, rheolwr y digwyddiad (fel deiliad y dystysgrif), personau sydd wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (sy'n cynnwys y cleient ac unigolyn sy'n dod gyda'r cleient) a chŵn cymorth cofrestredig (os ydynt yn gymwys).

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r man gwaith triniaethau arbennig wedi ei ddynodi'n benodol at ddiben rhoi triniaethau arbennig, felly ni ddylid ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall tra mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer rhoi triniaethau arbennig. Dylai deiliad y dystysgrif fodloni ei hun bod mynediad cyfyngedig i'r man hwn neu'r ystafell hon.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach.

(5) Rhaid arddangos yn glir hysbysiad sy'n cynnwys cyfarwyddiadau golchi dwylo wrth bob basn golchi dwylo a ddefnyddir gan ddeiliaid trwydded yn unig.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai pob basn golchi dwylo fod â hysbysiad neu boster yn dangos sut i olchi dwylo'n gywir. Dylai'r hysbysiad hwn fod wedi ei leoli'n agos at y basn golchi dwylo, ar y wal yn ddelfrydol.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adrannau 4 a 14.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi cyngor ar olchi dwylo.

(6) Rhaid nodi mannau mynediad y cyhoedd yn glir a rhaid cyfyngu ar fynediad aelodau o'r cyhoedd i'r canlynol:

(a) gweithfannau (oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi gan ddeiliad y dystysgrif neu ddeiliad y drwydded (i gynnwys cleient ac unigolyn sy'n dod gyda chleient)),

(b) mannau ac ystafelloedd lle y mae sbwriel sy'n deillio o'r driniaeth arbennig yn cael ei gasglu a'i storio, ac

(c) unrhyw fannau lle y mae cyfarpar a chynhyrchion sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig yn cael ei storio neu eu storio.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir nodi'r mannau hyn drwy hysbysiadau arddangos 'dim mynediad' neu 'mynediad awdurdodedig yn unig' neu gallant fod yn ddigon diogel er mwyn caniatáu unigolion awdurdodedig yn unig.

Ni ddylid ond caniatáu "unigolyn sy'n dod gyda chleient" lle bernir bod digon o le yn y man gwaith triniaethau arbennig fel na fydd yr unigolyn yn peri risg uwch o haint. Gall unigolion gynnwys rhieni, gwarcheidwaid a gweithwyr gofal.

Byddai unigolion sy'n dod gyda'r cleient yn cael aros yn y man aros neu'r dderbynfa os oes un.

Dylai deiliaid tystysgrif digwyddiadau dros dro mwy o faint fodloni eu hunain bod mannau sydd â mynediad cyfyngedig wedi eu nodi'n glir drwy gydol y digwyddiad.

## 4. Dyluniad, Strwythur ac Amgylchedd Ffisegol

**Mae Amod 4 yn cynnwys 17 o ofynion ac yn ymwneud â'r dyluniad, y strwythur a'r amgylchedd ffisegol.**

(1) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod dyluniad, maint, strwythur a chyflwr y fangre neu'r cerbyd yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

**Sut i gydymffurfio** – Dylid dylunio'r fangre/cerbyd i hwyluso llif gwaith 'glân' i 'fudr' wrth roi triniaethau arbennig. Bydd hyn yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Dylai'r fangre/cerbyd fod o faint digonol i leihau annibendod a galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol i gael ei gyflawni'n rhwydd ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd.

Mae strwythur y fangre/cerbyd yn cynnwys y rhannau sefydlog. Er enghraifft, y waliau, y lloriau, y nenfydau, y drysau, y ffenestri, y pibellau, y grisiau, a'r gwteri. Dylai'r rhain allu cael eu glanhau a'u diheintio'n effeithiol.

Gallai cyflwr gwael dyluniad neu strwythur y fangre/cerbyd atal gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Cyfrifoldeb deiliad y dystysgrif yw sicrhau bod cyflwr da yn cael ei gynnal, gan alluogi gwaith glanhau effeithiol.

Gall deiliaid tystysgrif digwyddiadau ddefnyddio rhaniadau a lloriau dros dro os yw hyn yn galluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ddeiliaid trwydded gyfeirio at adrannau 8 a 9 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n darparu gwybodaeth fanylach am lanhau amgylcheddol a dyluniad, strwythur ac amgylchedd ffisegol.

(2) Ni chaniateir rhoi triniaeth arbennig ond yn y weithfan sydd wedi ei dynodi at y diben hwnnw.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r weithfan wedi ei lleoli yn y man gwaith triniaethau arbennig ac mae'n cynnwys:

(a) gwely, cadair neu gyffelyb ar gyfer y cleient tra bo'r driniaeth yn cael ei rhoi,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig os oes angen, ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Mewn digwyddiadau dros dro, gellir lleoli gweithfan mewn man gwaith triniaethau arbennig gydag oriel wylio cyn belled â bod mynediad cyhoeddus i'r weithfan a'r man gwaith triniaethau arbennig yn cael ei atal.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach.

(3) Rhaid i'r holl arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol yn y man gwaith triniaethau arbennig fod o'r fath ddeunydd a dyluniad, a chael eu cadw mewn cyflwr da, i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y dystysgrif sicrhau, pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol, fod arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol yn y man gwaith triniaethau arbennig mewn cyflwr da a, lle bo'n briodol, yn gweithio'n gywir i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

Rhaid i arwynebau, gosodiadau, ffitiadau a chyfleusterau mewnol fod wedi eu gwneud o ddeunyddiau ac wedi eu dylunio i alluogi gwaith glanhau a diheintio effeithiol.

(4) Rhaid bod gan y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd gyfleusterau toiled y gall deiliaid trwydded, staff a chleientiaid eu cyrraedd a'u defnyddio'n rhwydd.

**Sut i gydymffurfio** – Pan nad yw'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd yn cynnwys cyfleusterau toiled, dylai deiliad y dystysgrif wneud trefniadau i ddeiliaid trwydded, staff a chleientiaid allu cael mynediad i gyfleusterau toiled yn agos at y fangre/cerbyd a gymeradwywyd.

(5) Pan ddarperir cyfleusterau toiled yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, rhaid iddynt gael eu hawyru a chynnwys basn golchi dwylo sydd â chyflenwad digonol o ddŵr rhedegog (poeth ac oer neu gymysg), sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig.

**Sut i gydymffurfio** – Gall awyru fod yn naturiol neu'n fecanyddol. Gellir darparu uned basn golchi dwylo cludadwy, ond dim ond pan nad oes pibellau addas ar gael. Mae basnau golchi dwylo cludadwy yn gofyn am ddilyn trefn cynnal a chadw gaeth, felly nid ydynt yn cael eu hargymell.

Mae'r defnydd o fasnau golchi dwylo cludadwy mewn digwyddiadau dros dro yn fwy tebygol, felly mae cyfundrefn cynnal a chadw lem a rheolaidd yn hanfodol.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 4.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am fasnau golchi dwylo cludadwy.

(6) Rhaid i'r weithfan fod â digon o le er mwyn galluogi rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r weithfan yn cynnwys:

(a) gwely, cadair neu gyffelyb ar gyfer y cleient tra bo'r driniaeth yn cael ei rhoi,

(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig os oes angen, ac

(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig.

Mae "digon o le" yn golygu digon o le i ddarparu ar gyfer y cleient a galluogi deiliad y drwydded i symud yn rhydd rhwng rhoi'r driniaeth arbennig a chyrchu offerynnau a chynhyrchion o'r arwyneb gwaith.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am weithfannau.

(7) Rhaid i'r man gwaith triniaethau arbennig gynnwys yr holl weithfannau a'r holl gyfleusterau ar gyfer storio'n lân gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu mewn cysylltiad â hwy, er mwyn atal y risg o halogiad.

**Sut i gydymffurfio** – Ardal neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir ar gyfer rhoi triniaeth arbennig yw man gwaith triniaethau arbennig. Rhaid iddo gynnwys o leiaf:

- 1 weithfan,
- 1 basn golchi dwylo,
- 1 bin gwastraff, a
- bin offer miniog (os oes angen).

Gall hefyd gynnwys cyfleusterau a chyfarpar i gefnogi rhoi triniaeth arbennig, megis storio.

Mae ardal neu ystafell "ddynodedig" yn golygu ei bod yn cael ei dewis yn benodol at ddiben rhoi triniaeth arbennig, felly ni ddylid ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Dylai deiliad y dystysgrif fodloni ei hun bod mynediad cyfyngedig i'r ardal neu'r ystafell hon. Mewn digwyddiadau dros dro mwy o faint, mae'n debygol y bydd angen monitro rheolaidd.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 9.2 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am fan gwaith triniaethau arbennig.

(8) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod pecynnau cymorth cyntaf sydd wedi eu stocio'n addas ac sydd ar gael yn rhwydd yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd ac sy'n diwallu anghenion cymorth cyntaf y triniaethau arbennig sy'n cael eu rhoi a nifer y deiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y digwyddiad.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod ganddo ef a deiliaid trwydded fynediad at becyn cymorth cyntaf, sydd wedi ei stocio'n addas ac sy'n diwallu anghenion y driniaeth arbennig a roddir yn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd. Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at **wefan HSE** sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am gymorth cyntaf.

Bydd nifer y pecynnau cymorth cyntaf sydd eu hangen yn dibynnu ar nifer y gweithfannau ac, yn achos digwyddiadau dros dro, nifer y cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd a ddisgwylir.

(9) Rhaid i'r goleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd yn gweithredu'n ddiogel ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol. Pan fo angen, rhaid darparu goleuadau lleol ym mhob gweithfan i sicrhau bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn ddiogel ac yn hylan.

**Sut i gydymffurfio** – Mae goleuadau'n cynnwys golau naturiol ac artiffisial. Bydd y lefelau golau sydd eu hangen yn dibynnu ar y gweithgarwch a wneir mewn ardal benodol. Yn y man gwaith triniaethau arbennig lle mae triniaeth arbennig yn cael ei rhoi, efallai y bydd angen 750 LUX.

Mewn digwyddiadau mwy, mae'n debygol y bydd angen defnyddio goleuadau lleol ychwanegol yn ardal y weithfan.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at **wefan HSE** ac adran 9.1 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth am oleuadau.

(10) Rhaid darparu awyriad digonol i'r man gwaith triniaethau arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Gall awyru fod naill ai o ddulliau naturiol neu fecanyddol. Mae awyru naturiol yn dibynnu ar ddrysau, ffenestri, awyrellau, brics aer neu ddellt i ddarparu aer. Mae awyru mecanyddol yn defnyddio ffaniau a phibellau i symud aer i mewn ac allan o ystafelloedd neu i chwythu aer glân i mewn i ystafelloedd a/neu dynnu hen aer.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at **wefan HSE** ac adran 9.1 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth am awyru.

(11) Rhaid darparu nifer addas o fasnau golchi dwylo sydd ar gael yn rhwydd yn y man gwaith triniaethau arbennig i'w defnyddio gan y deiliaid trwydded. Rhaid i'r basnau golchi dwylo weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da.

**Sut i gydymffurfio** – Bydd nifer y basnau golchi dwylo yn dibynnu ar nifer y gweithfannau mewn man gwaith triniaethau arbennig a lleoliad y basn golchi dwylo mewn perthynas â phob gweithfan. Dylai pob deiliad trwydded sy'n gweithredu o weithfan fod â mynediad rhwydd ac uniongyrchol i fasn golchi dwylo.

O'i leoli'n briodol, mae'n bosibl y gallai un basn golchi dwylo wasanaethu tair gweithfan.

Mae "cyflwr da" yn golygu bod y basn golchi dwylo mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn i alluogi golchi dwylo.

Gall basnau golchi dwylo naill ai fod â thapiau a weithredir â llaw neu dapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw. Mae tapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw yn cael eu hystyried yn 'arfer gorau' gan eu bod yn lleihau'r risg o halogi a throsglwyddo micro-organebau.

Gellir darparu uned basn golchi dwylo cludadwy, ond dim ond pan nad oes pibellau addas ar gael. Mae basnau golchi dwylo cludadwy yn gofyn am ddilyn trefn cynnal a chadw gaeth, felly nid ydynt yn cael eu hargymell oni bai eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau dros dro.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adrannau 4.3 a 4.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(12) Rhaid i fasnau golchi dwylo a ddefnyddir gan ddeiliaid trwydded gynnwys cyflenwad digonol o ddŵr rhedegog poeth ac oer neu gymysg, sebon hylif a thywelion papur wedi eu storio mewn cyflenwr caeedig sy'n agos i'r basn golchi dwylo.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol p'un a yw'r basn golchi dwylo wedi ei blymio i mewn neu'n un symudol. Yn ddelfrydol, dylai'r peiriant caeedig fod wedi ei osod naill ai uwchben neu yn ymyl y basn golchi dwylo.

Efallai y bydd deiliaid tystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 4.3 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(13) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod yr holl fasnau golchi dwylo at ddefnydd y deiliaid trwydded wedi eu stocio'n llawn â sebon hylif a thywelion papur drwy gydol yr arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai sebon hylif a thywelion papur tafladwy fod ar gael bob amser wrth y basnau golchi dwylo. Yn enwedig mewn digwyddiadau dros dro, dylid monitro'r basnau golchi dwylo yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod wedi eu stocio'n llawn.

(14) Ni chaniateir defnyddio basnau golchi dwylo ond at ddibenion golchi dwylo ac elinau.

**Sut i gydymffurfio** – Ni ddylid byth golchi cyfarpar nac offerynnau yn y basn golchi dwylo.

## 5. Dihalogi, Glanhau, Diheintio a Sterileiddio

**Mae Amod 5 yn cynnwys 5 gofyniad sy'n ymwneud â dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio.**

(1) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd (neu bob rhan o'r fangre neu'r cerbyd y mae'n gyfrifol amdani) yn cael ei chadw neu ei gadw'n lân ac yn daclus drwy'r amser.

**Sut i gydymffurfio** – Gall deiliad y dystysgrif gadw amgylchedd 'yn lân ac yn daclus' drwy fabwysiadu polisi 'glanhau wrth i chi fynd' a chadw'r fangre/cerbyd yn rhydd o annibendod. Bydd gweithredu amserlenni glanhau priodol a chadw trefn dda yn sicrhau bod y fangre/cerbyd yn weledol lân ac mewn cyflwr da.

(2) Rhaid gweithredu amserlen lanhau sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Sut i gydymffurfio** – Bydd amserlen lanhau "sy'n addas ac yn ddigonol" yn cael ei phennu yn ôl maint y busnes. Os gweithredir y fangre/cerbyd a gymeradwywyd gan un neu ddau berson, mae'n annhebygol y bydd angen cofnodi'r amserlen lanhau cyn belled â'i bod yn amlwg bod safonau glanhau da yn cael eu cyflawni a bod deiliad y dystysgrif yn gwbl ymwybodol o arferion glanhau a diheintio a'r cynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer y gweithgareddau hyn. Efallai y bydd busnes neu ddigwyddiad dros dro mwy o faint gyda nifer o ddeiliaid trwydded a staff yn ei chael hi'n haws cael amserlen ysgrifenedig gyda rolau wedi eu dyrannu'n glir, amlder glanhau a diheintio a chynhyrchion i'w defnyddio.

Dylai'r amserlen lanhau fod yn berthnasol i bob rhan o'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 8 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am lanhau amgylcheddol.

(3) Rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau, diheintio a, phan fo angen, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill. Rhaid gwahanu'r ddarpariaeth hon oddi wrth yr holl weithfannau, a rhaid iddi adlewyrchu'r triniaethau a roddir yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu cyfarpar ar gyfer glanhau, diheintio a, lle bo angen, sterileiddio'r holl gyfarpar, offerynnau ac eitemau nad ydynt yn dafladwy sy'n gysylltiedig â rhoi triniaeth arbennig.

Mae "cyfleusterau" yn cynnwys darparu ystafell neu ardal ar wahân, i ffwrdd o'r gweithfannau, a gall "trefniadau" gynnwys darparu cyfarpar a chontractau cynnal a chadw a gwasanaethu.

Dylai'r gofyniad hwn adlewyrchu'r driniaeth arbennig a'r ffordd y caiff ei rhoi. Er enghraifft, ni fydd angen cyfarpar sterileiddio ar ddeiliad trwydded sy'n mabwysiadu polisi untro.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am ddihalogi.

(4) Pan na ellir darparu cyfarpar, cyfleusterau na threfniadau ar gyfer dihalogi, glanhau diheintio a, phan fo'n ofynnol, sterileiddio teclynnau gwaith, offerynnau ac eitemau eraill, rhaid gweithredu polisi defnydd untro.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad tystysgrif digwyddiad dros dro sicrhau bod ei holl ddeiliaid trwydded yn ymwybodol bod polisi untro ar waith yn y digwyddiad hwnnw. Dylai deiliad y dystysgrif roi cyfarwyddiadau clir i ddeiliad y drwydded ar sut y mae'n disgwyl i'r polisi untro weithredu.

Gan fod polisi untro yn debygol o greu mwy o wastraff, dylai deiliad y dystysgrif sicrhau bod ei gontract gwastraff yn gallu cefnogi'r dull hwn.

(5) Rhaid defnyddio, cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir at ddiben glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a rhaid cael cofnodion ar ffurf dogfen i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi eu cynnal i ddilysu defnydd o'r cyfarpar hwnnw.

**Sut i gydymffurfio** – TMae cynnal a chadw a gwasanaethu cyfarpar yn hanfodol er mwyn sicrhau dihalogi effeithiol. Mae copïau caled neu electronig o gofnodion yn dderbyniol.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am ddihalogi.

## 6. Gwastraff gan gynnwys offer miniog

**Mae Amod 6 yn cynnwys 6 gofyniad sy'n ymwneud â gwastraff gan gynnwys offer miniog.**

**Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 23 o ddogfen Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael rhagor o wybodaeth am reoli gwastraff.**

(1) Rhaid gwneud darpariaeth addas ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff a sbwriel arall.

**Sut i gydymffurfio** – Wrth wneud darpariaeth ar gyfer casglu, storio a gwaredu gwastraff, rhaid i ddeiliad y dystysgrif ystyried yr holl wastraff a gynhyrchir yn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd, y triniaethau arbennig a roddir, y cynhyrchion a'r eitemau tafladwy a ddefnyddir gan ddeiliaid trwydded a nifer y deiliaid trwydded a staff sy'n gweithio yn y fangre/cerbyd.

Dylid storio gwastraff mewn ardal ddiogel bwrpasol wrth aros iddo gael ei gasglu.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am reoli gwastraff.

(2) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif ddarparu nifer addas o finiau offer miniog a sicrhau eu bod mewn lleoliad diogel yn agos i'r holl weithfannau.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r "bin offer miniog" yn golygu cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â'r cod EWC 20 01 99 a ddyluniwyd i waredu offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig yn ddiogel.

Dylai biniau offer miniog fod ar gael yn rhwydd ac yn uniongyrchol o bob gweithfan ac ni ddylid eu lleoli ar lawr y man gwaith triniaethau arbennig.

Bydd nifer y biniau offer miniog yn cael ei bennu gan nifer y gweithfannau a nifer y deiliaid trwydded sy'n gweithredu yn y fangre/cerbyd hwnnw. Byddai mangre/cerbyd neu ddigwyddiad prysur yn gofyn am fwy o finiau offer miniog na mangre/cerbyd tawelach.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** ar gyfer gwybodaeth fanylach am wastraff offer miniog.

(3) Rhaid darparu nifer digonol o finiau gwastraff hawdd eu glanhau, nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw, yn y man triniaethau arbennig a rhaid iddynt fod wedi eu hadeiladu'n briodol a chael eu cadw mewn cyflwr da a glân.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond biniau gwastraff nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw y dylid eu defnyddio a dylent fod wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll anhyblyg. Dylai biniau gwastraff fod ar gael yn rhwydd i'r holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithio yn y man gwaith triniaethau arbennig.

(4) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod darpariaeth addas wedi ei gwneud ar gyfer gwaredu gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus, ac ar gyfer eu storio ar wahân.

**Sut i gydymffurfio** – Tra'i fod yn cael ei storio yn y fangre/cerbyd a gymeradwywyd, mae'n ofynnol i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod gwastraff yn cael ei storio ar wahân yn briodol.

Dylai'r ddarpariaeth ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff fod drwy ddefnyddio cludydd gwastraff trwyddedig.

(5) Rhaid marcio tarddle (enw a chyfeiriad y busnes) yr holl wastraff clinigol nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) cyn eu gwaredu.

**Sut i gydymffurfio** – Y "tarddle" yw enw a chyfeiriad y busnes sy'n gweithredu o'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.

(6) Rhaid i ddeiliad y dystysgrif sicrhau bod y gwastraff clinigol, nad yw'n beryglus (bagiau gwastraff melyn a biniau offer miniog melyn) yn cael ei gasglu gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre neu'r cerbyd a rhaid iddo fod ar gael i'w arolygu gan swyddog awdurdodedig.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir cadw cofnodion gwastraff naill ai fel copïau electronig neu gopïau caled.

Efallai y bydd deiliad y dystysgrif yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael gwybodaeth fanylach am reoli gwastraff.

Pennod 8

# Pwerau awdurdodau lleol, troseddau a gorfodi

## 8.1 Pwerau awdurdodau lleol

Mae **adrannau 83-92** o'r Ddeddf yn nodi'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol at ddibenion gorfodi, a'r telerau y mae'n rhaid arfer y pwerau hyn oddi tanynt.

Mae'r pwerau'n berthnasol i unrhyw fangre lle mae triniaethau arbennig wedi eu rhoi, yn cael eu rhoi neu'n debygol o gael eu rhoi yn y fangre honno, neu pan fo unrhyw ddeunydd neu gyfarpar y bwriedir ei ddefnyddio mewn triniaethau arbennig yn cael ei storio neu ei baratoi yn y fangre.

Mae'r adrannau hyn yn diffinio swyddogion awdurdodedig at ddiben y Ddeddf ac yn ymdrin â phwerau sy'n ymwneud ag ymchwilio i driniaethau arbennig a'u gorfodi, gan gynnwys:

**Swyddogion awdurdodedig (adran 83)** – Yn cadarnhau bod cyfeiriadau at swyddogion awdurdodedig yn adrannau 84 i 92 yn gyfeiriadau at unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i arfer swyddogaethau awdurdod lleol, p'un a yw'n swyddog yr awdurdod lleol ai peidio.

**Pwerau mynediad (adran 84)** – Yn galluogi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i fangre (ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd) ar unrhyw adeg resymol, os oes gan y swyddog reswm dros gredu bod triniaeth arbennig wedi ei rhoi, yn cael ei rhoi neu'n debygol o gael ei rhoi yn y fangre, neu fod deunydd neu gyfarpar sy'n ymwneud â thriniaeth arbennig yn cael ei gadw neu ei baratoi yn y fangre. Nid yw'r pŵer i fynd i mewn i fangre yn galluogi'r swyddog i fynd i mewn drwy rym. Os yw'n ofynnol, rhaid i swyddog ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad cyn mynd i mewn i'r fangre. Mae'r pŵer mynediad hefyd yn gymwys i gerbyd. Rhaid i swyddogion roi sylw i God Ymarfer B PACE (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol) wrth arfer eu swyddogaethau gorfodi.

**Gwarant i fynd i mewn i annedd (adran 85)** – Os oes angen mynediad i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd ar gyfer gorfodi, rhaid i'r ALl wneud cais ysgrifenedig i ynad heddwch. Gall ynad heddwch ddyroddi gwarant, a thrwy hynny awdurdodi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r annedd, a hynny drwy rym os oes angen. Bydd gwarant mewn grym am 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch. Mae hyn hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill (adran 86)** – Os yw mynediad i fangre nad yw'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd yn angenrheidiol, mae'r adran hon yn galluogi ynad heddwch i ddyroddi gwarant gan awdurdodi unrhyw swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, a hynny drwy rym os oes angen. Rhaid i'r fangre y mae mynediad iddi yn cael ei geisio gael ei defnyddio at ddibenion busnes, neu ar gyfer busnes ac fel annedd. Os yw mangre yn cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, mae adran 85 yn gymwys. Er mwyn dyroddi gwarant, rhaid bodloni un neu ragor o'r gofynion. Mae'r rhain yn cynnwys os yw cais i fynd i mewn i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais

am warant wedi ei roi; os yw cais i fynd i mewn i'r fangre, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant yn debygol o danseilio diben y mynediad; os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu; neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro a bod aros iddo ddychwelyd yn debygol o danseilio diben y mynediad. Bydd gwarant mewn grym am 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Cael gwarantau i fynd i mewn i annedd neu fangreoedd eraill (adran 87)** – Yn galluogi swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan adrannau 84, 85 neu 86 i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried ei fod yn briodol e.e. cyfarpar a ddefnyddir i archwilio cofnodion electronig. Os yw meddiannydd y fangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd iddi o dan adran 85 neu 86 yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog yn ceisio gweithredu'r warant, rhaid rhoi enw'r swyddog i'r meddiannydd; rhaid i'r swyddog gyflwyno i'r meddiannydd dystiolaeth ddogfennol bod y swyddog yn swyddog awdurdodedig; rhaid i'r swyddog gyflwyno'r warant i'r meddiannydd a chyflenwi copi ohoni i'r meddiannydd. Os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, wrth adael y fangre rhaid i'r swyddog ei gadael wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Pwerau arolygu ac archwilio eitemau yn y fangre (adran 88)** – Unwaith y bydd swyddog awdurdodedig wedi cael mynediad i fangre, caiff gynnal arolygiadau ac archwiliadau at ddibenion swyddogaethau'r ALl mewn perthynas â thriniaethau arbennig. Mae hyn yn cynnwys arolygu ac archwilio'r fangre, edrych ar gofnodion teledu cylch cyfyng a'u cadw a chael copïau o ddogfennau, megis cofnodion triniaeth a dogfennau cydsyniad. Efallai y bydd y swyddog yn gofyn am gynhyrchu/cymryd meddiant o unrhyw beth a'i gadw cyhyd ag y bo angen i arfer y swyddogaethau hynny. Rhaid i'r swyddog adael datganiad yn y fangre sy'n rhestru'r hyn sydd wedi ei gymryd, a nodi'r person y gellir gwneud cais iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd. Efallai y bydd y swyddog hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth iddo, neu gyfleusterau a chymorth, gan gynnwys darparu cyfrif o ddigwyddiadau neu gyflenwi gwybodaeth sy'n cael ei storio ar gyfrifiadur. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Rhwystro etc. swyddogion (adran 89)** – Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol unrhyw swyddog awdurdodedig rhag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 84-88 o'r Ddeddf; yn methu, heb achos rhesymol, â darparu neu gydymffurfio â gofynion o dan adran 88 o'r Ddeddf. Bydd person yn cyflawni trosedd os bydd yn methu â chydymffurfio â materion penodol sy'n berthnasol i adran 88(1) o'r Ddeddf ac yn gwneud hynny heb achos rhesymol. Gall hyn gynnwys methu â darparu cyfleusterau neu gymorth, cynhyrchu eitemau i'w harchwilio neu ddarparu gwybodaeth. Os caiff person ei ganfod yn euog, bydd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol sef £1,000 ar hyn o bryd.

**Pŵer i wneud pryniannau prawf (adran 90)** – Caiff swyddog awdurdodedig wneud unrhyw bryniannau a threfniadau, a sicrhau darpariaeth unrhyw wasanaethau, y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben arfer swyddogaethau'r ALl. Mae hyn yn cynnwys cael cymorth person i ganfod a yw triniaeth arbennig yn cael ei rhoi mewn mangre neu gerbyd yn groes i'r gofynion.

**Eiddo a gedwir: apelau (adran 91)** – Diogelwch ychwanegol sy'n ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu. Mae'n galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae swyddog awdurdodedig yn mynd ymaith ag ef o'r fangre o dan adran 88(1)(c) o'r Ddeddf i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau.

**Eiddo a gyfeddir: digolledu (adran 92)** – Caiff person y mae cymryd meddiant o eiddo o dan adran 88(1)(c) o'r Ddeddf yn effeithio arno wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Gall y llys orchymyn i'r ALl ddigolledu h.y. os yw'r person wedi dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad ac nad yw'r golled neu'r difrod oherwydd ei esgeulustod neu ei fethiant i weithredu.

## 8.2 Troseddau

Mae **adran 82** o'r Ddeddf yn amlinellu'r troseddau sy'n ymwneud ag amryw achosion o dorri'r darpariaethau ar gyfer trwyddedu a chymeradwyo triniaethau arbennig. Y troseddau yw:

- Torri adran 58 – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf heb fod â thrwydded triniaeth arbennig pan nad yw wedi ei esemptio.
- Torri adran 61(3)(c) – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf pan fo gwaharddiad ar waith.
- Torri adran 69(2) – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf mewn mangre neu gerbyd nad oes ganddo'r dystysgrif gymeradwyo briodol ar gyfer mangre/cerbyd (heb achos rhesymol).
- Parhau i roi triniaethau arbennig neu weithredu o fangre neu gerbyd heb y drwydded/dystysgrif gymeradwyo ar gyfer mangre berthnasol pan fo hysbysiad stop o dan adran 77 ar waith (heb achos rhesymol).
- Torri (heb achos rhesymol) hysbysiad camau adfer i ddeiliad trwydded a gyflwynwyd o dan adran 78.
- Torri (heb achos rhesymol) hysbysiad camau adfer ar gyfer mangre/cerbyd a gyflwynwyd o dan adran 79.
- Gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol (naill ai'n fwriadol neu'n ddi-hid) wrth wneud cais am ddyroddi, amrywio neu adnewyddu trwydded triniaeth arbennig neu i gymeradwyo tystysgrif mangre/cerbyd.
- Mae'r datganiadau anwir neu gamarweiniol mewn perthynas ag unrhyw beth a fyddai fel arall yn achosi i'r awdurdod lleol beidio â rhoi'r drwydded/tystysgrif, yr amrywiad neu'r adnewyddiad (er enghraifft, gwneud datganiad anwir ynghylch euogfarn am drosedd berthnasol).

Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan adran 82 o'r Ddeddf yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

## 8.3 Camau gweithredu sydd ar gael i awdurdodau lleol lle nodir troseddau

**Adran 61 Dynodi unigolyn at ddibenion adran 58(3)** – Yn galluogi ALl i roi hysbysiad i unigolyn sy'n ei ddynodi fel person y mae angen trwydded triniaeth arbennig arno os yw'n bwriadu rhoi triniaeth arbennig benodedig, cyn belled â bod yr amod yn adran 61(2) o'r Ddeddf wedi ei fodloni.

Mae nifer o gydrannau:

- bod y person yn debygol o roi'r driniaeth i rywun arall yng Nghymru,
- bod y driniaeth fel y mae'n debygol o gael ei rhoi gan y person yn y fath fodd yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol, ac
- er mwyn dileu neu leihau'r risg honno, ei bod yn briodol dynodi'r person fel rhywun sydd angen trwydded.

Nid yw gallu'r ALl i ddynodi'r person yn dibynnu ar y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi fel rhan o weithgarwch busnes; felly, gall person sy'n rhoi triniaeth arbennig o dan unrhyw amgylchiadau ac at unrhyw ddiben (e.e. o'r cartref ac nid am dâl) gael ei ddynodi.

**Adran 77 Hysbysiadau stop** – Os yw'r ALl yn ymwybodol o unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig heb drwydded, neu sy'n cynnal busnes o fangre neu gerbyd nad yw wedi ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo, caiff yr ALl ddyroddi hysbysiad stop i'r unigolyn hwnnw. Y nod yw gwahardd rhoi'r driniaeth arbennig a bennir yn yr hysbysiad. Mae torri'r hysbysiad stop yn drosedd (adran 82(4)). Bydd yr hysbysiad stop yn gymwys yn unrhyw le yng Nghymru a bydd yn effeithiol hyd nes y bydd y person yn cael y drwydded neu'r gymeradwyaeth berthnasol.

**Adran 78 Trwyddedau triniaeth arbennig: hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded** – Os daw ALl yn ymwybodol bod deiliad trwydded yn torri amod trwyddedu mandadol, caiff ddyroddi hysbysiad camau adfer (RAN) i ddeiliad y drwydded. Caiff y gwaharddiad ymwneud â rhoi'r driniaeth arbennig mewn ardal yng Nghymru (e.e. ardal yr ALl) neu ym mhob rhan o Gymru. Mae torri'r hysbysiad camau adfer yn drosedd (adran 82(5)). Yn ychwanegol at y RAN, caiff yr ALl hefyd ddirymu trwydded os yw deiliad y drwydded yn methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol cymwys.

**Adran 79 Mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd: hysbysiadau camau adfer ar gyfer mangre** – Caiff ALl ddyroddi RAN i berson mewn perthynas â mangre neu gerbyd a gymeradwywyd os yw wedi ei fodloni bod y person yn torri amod mandadol o ran cymeradwyaeth. Rhaid i'r ALl gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw un sy'n debygol o gael ei effeithio ganddo (e.e. deiliaid trwydded a restrir fel rhai sy'n gweithredu o'r fangre/cerbyd) i sicrhau nad yw pobl sy'n rhoi triniaethau arbennig o'r fangre neu'r cerbyd yn cyflawni trosedd anfwriadol drwy dorri'r gwaharddiad. Mae torri'r RAN yn drosedd (adran 82(6)). Yn ychwanegol at y RAN, caiff yr ALl hefyd ddirymu cymeradwyaeth i fangre neu gerbyd os yw'r person yn methu â chydymffurfio ag amod cymeradwyo mandadol.

**Adran 80 Tystysgrif gwblhau** – Os yw ALl wedi ei fodloni bod person wedi cymryd y camau a bennir mewn RAN (adrannau 78 neu 79 o'r Ddeddf), rhaid iddo ddarparu tystysgrif gwblhau sy'n rhyddhau'r hysbysiad. Rhaid i'r ALl gymryd camau rhesymol i ddwyn y dystysgrif gwblhau neu'r hysbysiad i sylw unrhyw un y mae'n meddwl ei bod neu ei fod yn debygol o effeithio arnynt. Gall person sy'n ddarostyngedig i RAN wneud cais i'r ALl am dystysgrif gwblhau ar unrhyw adeg. Os yw ALl yn gwrthod y cais, rhaid iddo roi hysbysiad i'r person hwnnw (gan gynnwys rhesymau dros wrthod a gwybodaeth am y broses apelio fel y nodir yn adran 81).

**Adran 81 Apelau** – Mae adran 81 o'r Ddeddf yn nodi hawl person i apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad ALl o dan adrannau 77, 78 neu 79 o'r Ddeddf, yn ogystal ag apêl yn erbyn penderfyniad yr ALl i wrthod cais am dystysgrif gwblhau (adran 80(5)). Caniateir i apêl gan y naill barti neu'r llall yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon gael ei dwyn gerbron Llys y Goron.

# Atodiad 1 – Mangreoedd a cherbydau wedi eu hesemptio

Mae **Rhan 2** o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 yn nodi'r amgylchiadau pan nad yw'r gofyniad i driniaeth arbennig gael ei rhoi mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd yn berthnasol.

Nid oes angen rhoi triniaethau arbennig mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Lle mae triniaeth aciwbigo yn cael ei rhoi i gleient o fangre neu gerbyd a ddefnyddir gan y cleient hwnnw fel ei annedd (sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gartref gofal oedolion a hosbis).
2. Sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir.

## "Annedd"

Mae Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 yn diffinio "annedd" fel lle sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) "cartref gofal i oedolion" sydd â'r ystyr a roddir yn adran 28(1) o'r Ddeddf;

(b) "hosbis", sef mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu gofal lliniarol i bersonau sy'n dioddef o glefyd sy'n gwaethygu ac sydd yn ei gyfnodau olaf, gan neu ar ran sefydliad y mae darparu gofal o'r fath yn brif swyddogaeth iddo.

Mae annedd yn lle preswyl a gall hefyd gynnwys tŷ neu fflat neu unrhyw adeilad arall y mae cleient yn byw ynddo.

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gymeradwyo annedd/cartref cleient ar gyfer rhoi triniaeth aciwbigo yn unig. Aciwbigo yw'r unig driniaeth arbennig y caniateir ei rhoi yn nhŷ/cartref cleient, ac nid yw'r eithriad yn estyn i unrhyw un o'r triniaethau arbennig eraill yn y cynllun. Yn yr achos hwn, bydd angen i'r ymarferydd gael trwydded triniaeth arbennig ddilys i roi'r driniaeth aciwbigo gan nad yw'r eithriad ond yn estyn i'r lle, nid y person.

## Sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir

Mae Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 yn diffinio ystyr "sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir" at ddibenion triniaethau arbennig.

Mae "Sefydliad Gofal Iechyd Annibynnol a Reoleiddir" yn sefydliad gofal iechyd sy'n:

(a) clinig annibynnol

(b) ysbyty annibynnol

(c) practis deintyddol preifat

**... AC sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac sy'n cael ei reoleiddio a'i arolygu ganddi.**

(a) **Mae clinig annibynnol** yn lleoliad/sefydliad a ddiffinnir gan adran 2(4) o **Ddeddf Safonau Gofal 2000**; ac a ragnodir gan **Reoliad 4** o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Mae enghreifftiau yn cynnwys clinigau lle darperir gwasanaethau gan ymarferwyr meddygol. Gall gwasanaethau a thriniaethau a ddarperir gan glinigau o'r fath hefyd gynnwys un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig.

(b) **Mae ysbyty annibynnol** yn lleoliad/sefydliad annibynnol a ddiffinnir gan adran 2(2) ac adran 2(3) o **Ddeddf Safonau Gofal 2000**; ac a ragnodir gan **Reoliad 3** o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gall enghreifftiau gynnwys ysbytai annibynnol lle mae ystod eang o wasanaethau a thriniaethau yn cael eu darparu gan ymarferwyr meddygol/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol megis ysbytai acíwt, hosbisau, ysbytai deintyddol, ysbytai mamolaeth ac ysbytai sy'n darparu llawdriniaethau cosmetig. Gall yr ysbytai hyn hefyd gynnig un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig.

(c) **Mae practis deintyddol preifat** yn lleoliad/sefydliad a ddiffinnir gan **Reoliad 3(1)** o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Mae enghreifftiau'n cynnwys practisau deintyddol preifat sy'n gwneud gwaith cwbl breifat yng Nghymru. Bydd y practisau hyn wedi eu cofrestru gydag AGIC, ac yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu ganddi, ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol preifat gan ddeintyddion a gyflogir yno. Gall aciwbigo gael ei gynnig/ei ddarparu gan bractisau deintyddol o'r fath er mwyn lleddfu poen i gleifion sy'n cael triniaethau deintyddol.

## Sefydliadau'r GIG

Mae sefydliadau'r GIG a gwaith y GIG yn cael eu harolygu a'u rheoleiddio gan AGIC. Nid yw ysbytai a lleoliadau'r GIG a gwaith y GIG sy'n cynnwys unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig benodol yn dod o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu. Felly, nid oes angen tystysgrif gymeradwyo ar gyfer unrhyw adeiladau neu leoliadau'r GIG lle gall gweithwyr meddygol ac iechyd proffesiynol a reoleiddir roi triniaeth aciwbigo, tyllu'r corff (gan gynnwys tynnu gwrthrychau o'r corff), electrolysis a thriniaethau tatŵio fel rhan o'u rôl yn y GIG.

# Atodiad 2 – Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio ac arolygiad

Bydd swyddog o'r awdurdod lleol yn cynnal y cyfweliad a'r arolygiad yn y fangre neu'r cerbyd dan sylw yn y cais ar ddyddiad ac amser y cytunwyd arno ar y cyd. Yn ystod y cyfweliad, bydd y swyddog yn gofyn cwestiynau i chi am y pynciau isod. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau/materion a allai gael eu gofyn:

**Eich dyletswyddau fel deiliad tystysgrif gymeradwyo o dan Ran 4 o'r Ddeddf:**

- Enwch rai o'ch dyletswyddau fel deiliad tystysgrif gymeradwyo.

**Yr amodau cymeradwyo mandadol:**

- Beth yw'r gofynion amodau cymeradwyo ar gyfer darparu basnau golchi dwylo? Lle ddylai golchi basnau dwylo fod wedi eu lleoli?
- Sut ydych yn bwriadu cyfyngu mynediad i bobl awdurdodedig yn y man gwaith triniaethau arbennig.
- Pa anifeiliaid sy'n cael bod gyda chleient tra'i fod yn cael triniaeth arbennig?
- Pa gyfleusterau sydd gennych ar gyfer glanhau, diheintio a sterileiddio cyfarpar?
- Pa hysbysiadau y mae'n rhaid i chi eu harddangos yn eich mangre/cerbyd?
- Sut ydych yn sicrhau bod cofnodion cleientiaid yn cael eu storio'n ddiogel?
- Pa fath o ddeunyddiau y dylai'r gosodiadau a'r ffitiadau fod wedi eu gwneud ohonynt a pham?
- Esboniwch fanylion eich amserlen lanhau ar gyfer eich mangre/cerbyd, gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar ac offerynnau a ddefnyddir.

**Goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol:**

- Pa gamau y gall yr awdurdod lleol eu cymryd yn erbyn deiliad tystysgrif gymeradwyo y canfyddir ei fod wedi torri'r amodau trwyddedu mandadol?

Bydd yr arolygiad o'r fangre/cerbyd y mae'r swyddog yn ymgymryd ag ef yn gysylltiedig â'r cwestiynau a ofynnir yn ystod y cyfweliad. Yn ystod yr arolygiad, bydd y swyddog yn gofyn am gael ei dywys o amgylch pob rhan o'r fangre/cerbyd y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a bydd am drafod materion sy'n ymwneud â'r cais, a all gynnwys:

- Trefn y man gwaith triniaethau arbennig, gan gynnwys nifer y gweithfannau a'u lleoliad.
- Y triniaethau arbennig y bwriedir eu rhoi yn y fangre/cerbyd.
- Strwythur, dyluniad a llif gwaith cyffredinol y fangre neu'r cerbyd.
- Darpariaeth a chyflwr cyfleusterau megis basnau golchi dwylo, toiledau, mannau storio.
- Trefniadau ar gyfer glanhau, diheintio a, lle bo'n briodol, sterileiddio.

Gall y swyddog hefyd ofyn am gael gweld cofnodion a dogfennau sy'n gysylltiedig â'r amodau cymeradwyo. Gallai hyn gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Manylion y cyflenwyr rydych yn eu defnyddio ar gyfer yr holl gynhyrchion a chyfarpar.
- Eich contract gwastraff.
- Cofnodion gwasanaeth neu gynnal a chadw, er enghraifft, contractau awtoclaf.
- Manylion deiliaid trwydded sy'n bwriadu gweithredu o'ch mangre/cerbyd.